**Cyngor Bro Morgannwg**

**Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl**

**Ymateb i’r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd**

| | |
|---|---|
| Eich enw | Y Cabinet |
| Sefydliad (os yn berthnasol) | Cyngor Bro Morgannwg |
| Eich Cyfeiriad | Cyngor Bro Morgannwg<br>Swyddfeydd Dinesig<br>Heol Holton<br>Y Barri<br>Bro Morgannwg<br>CF63 4RU |

Gallwch ganfod sut y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth a ddarparwch trwy ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd yn y ddogfen ymgynghorol.

| **Pennod 3** |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 1<br>Ym Mhennod 2, dywedom unwaith eto ein bod wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, gan gydnabod hefyd fod angen gwneud newidiadau pellach i gefnogi hyn. Ym Mhennod 3, rydym yn cyflwyno'r opsiynau cyffredinol ar gyfer symud tuag at lai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, ac rydym yn crynhoi nodweddion y broses a fyddai'n gyffredin i bob opsiwn |
| a) Pa gamau ymarferol allai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wneud y trefniadau gweithio'n rhanbarthol presennol yn haws ac yn fwy effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'r consortia addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Dinas a Thwf? |
| **Crynodeb o Ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r Papur Gwyrdd**<br><br>**Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ystyried yn ofalus y gyfres ddiweddaraf o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol llywodraeth leol. Datblygwyd ymateb y Cyngor gyda chyfraniad nifer sylweddol o gydweithwyr ar draws y sefydliad, sgwrs gyda phob aelod etholedig, craffu gan y Pwyllgor Adnoddau Perfformiad Corfforaethol, ac yn olaf, ein trafodaeth yn y Cabinet. Mae'r Cyngor hwn wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn parhau i fod ar flaen y gad o ran gweithio ar y cyd, yn cael ein cydnabod yn genedlaethol am ein gwaith, a buom yn gyson iawn yn nhermau rheoli perfformiad ac adnoddau, er gwaethaf heriau sylweddol a sylfaen ariannol mor isel.**<br><br>**Noda ein cyflwyniad yn fanwl y rhesymau dros wrthod y diweddaraf mewn cyfres o ymdrechion niweidiol, gwrthdynnol ac anghymhellol gan Lywodraeth Cymru i 'symleiddio' llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyrdd yn** |

**parhau i fod yn ymroddedig i'r syniad mai ffiniau bwrdd iechyd yw'r ateb; bod llai o awdurdodau mwy rhywsut yn fwy abl o fod yn ystwyth ac ymatebol i angen lleol; ac mai dim ond cydweithredu, trawsnewid a phwerau a rhyddid newydd fydd yn wirioneddol cyflenwi ad-drefnu eang o'r sector. Mae ymatebolrwydd a dealltwriaeth ein cymunedau yn allweddol.**

**Byddai'r Cyngor hwn yn croesawu sgwrs gadarnhaol â Llywodraeth Cymru fel partner ar sut y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol i Gymru. Byddai gallu Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n gadarnhaol, cefnogi a chynorthwyo gyda rhywfaint o waith cydweithredol - yn enwedig ar brojectau 'unwaith i Gymru' – yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, nid yw tôn y Papur Gwyrdd, lefel y rhagnodi a diffyg tystiolaeth fanwl i gefnogi'r cynigion diweddaraf yn awgrymu parodrwydd i ymgysylltu, gwrando na chydweithio. Yn y pen draw, mae hyn yn siomedig iawn.**

**Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gwrthwynebu uno ag unrhyw awdurdod lleol arall. Nid yw hyn oherwydd nad ydym yn credu'n llwyr mewn cydweithrediad, ond yn hytrach oherwydd ein bod ni. Rydym yn cydweithio lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny, gyda phartneriaid y mae'n gwneud synnwyr i weithio gyda nhw. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau o ansawdd da a chost-effeithiol yn uniongyrchol lle mae'n gwneud synnwyr i ni wneud hynny.**

**Yn ystod y tair blynedd diwethaf, Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod lleol sydd wedi perfformio orau yng Nghymru. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod cyllid y Cyngor yr ail isaf yng Nghymru. Arweinia hyn ni i gasglu mai ein strategaeth bresennol yw'r un iawn i'n trigolion. Nid yw mwy yn gyfystyr â gwell. Ceir tystiolaeth rymus i gefnogi hyn.**

**Pe bai'r Papur Gwyrdd wedi'i gyhoeddi bum mlynedd yn ôl, efallai y byddai rhai o'r honiadau ynghylch cyflymder a graddfa newid a chydweithio wedi bod yn wir. Ymddengys bod rhagdybiaeth o fewn Llywodraeth Cymru bod Comisiwn Williams yn gywir, bod cefnogaeth ymhlith y sector dros newid strwythurol, a bod y canlyniad yn ddarn o waith gyda thystiolaeth dda. Nid oedd yn gywir. Nid oedd cefnogaeth. Nid oedd tystiolaeth dda.**

**Er ei bod yn ymddangos bod polisi Llywodraeth Cymru yn gaeth i amser Comisiwn Williams, nid felly gwaith llywodraeth leol. Sefydlwyd cydweithio sylweddol trwy'r Fargen Ddinesig, gwaith gofal cymdeithasol ac iechyd, addysg a gwasanaethau mewnol, ac mae'n ffynnu. Gellid darparu pwerau a rhyddid newydd yn awr i ddarparu hyblygrwydd pellach i lywodraeth leol. Byddai hyn yn ein helpu i adeiladu ar y momentwm presennol, nid fel yr ymddengys fod Ysgrifennydd y Cabinet yn awgrymu, sef y pris y mae'n rhaid i ni ei dalu i dderbyn y broses gostus a diangen o uno.**

**Dioddefodd llywodraeth leol bedair blynedd a mwy o ddiffyg eglurder mewn cyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn parhau i ddarparu diffyg eglurder cyffredinol. Er gwaethaf yr effaith barhaus y mae hyn yn ei gael ar forâl, mae'r cyngor hwn yn parhau i berfformio, trawsnewid a chydweithio. Mae olion traed yn ymyrraeth, o gofio'r angen i**

**gydweithio ar sail rhwydwaith, nid ar sail linol. Addawodd Ysgrifennydd y Cabinet blaenorol ddeng mlynedd o sefydlogrwydd. Nid yw'r Ysgrifennydd y Cabinet presennol wedi darparu gwerth deng mis.**

**Mae ymateb y Cyngor hwn i'r Papur Gwyrdd yn gynhwysfawr a chadarn. Adlewyrcha hyn pa mor ddifrifol yr ydym yn cymryd ymdrechion i osod uno gorfodol arnom, nad yw'n ein helpu o ran cyflenwi ein gweledigaeth o gymunedau cryf gyda dyfodol disglair ym Mro Morgannwg.**

**Y mater blaenoriaeth i'r Cyngor hwn ei ddatrys yn fuan fyddai i'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi bod yr ymgynghoriad hwn wedi arwain at wneud y penderfyniad cywir - hynny yw, y dylid cefnogi Llywodraeth Leol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn strwythur sy'n gwneud synnwyr yn lleol, ac nid yn ôl dictad cenedlaethol.**

<u>**Cwestiwn 1**</u>
**Mae cydnabod pwysigrwydd gweithio'n rhanbarthol yn gam pwysig, ond gellid symleiddio syniadaeth ddryslyd Lywodraeth Cymru ar sut y dylai cynghorau weithio gyda'i gilydd gyda cham ymarferol syml iawn a fyddai'n cydnabod bod cydweithio bellach yn gweithio. Nid oes angen newidiadau strwythurol pellach ac ni ddymunir nhw gan y sector cyfan.**

Pe bai'r cynigion diweddaraf wedi'u llunio 10 mlynedd yn ôl, byddai'r cyfeiriadau at gydweithio ddim yn symud ymlaen gyda momentwm digonol wedi bod yn gywir. Nid yw'n fuddiol bod Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi rhoi'r gwaith hwn mewn perygl trwy hyrwyddo agenda o ad-drefnu eang, a fydd yn ymyrryd â'r gwaith a wneir ar y cyd gan lywodraeth leol lle mae'n gwneud synnwyr clir i gydweithio (sydd eisoes yn digwydd), ynghyd â'n gallu i ganolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau'n lleol.

Un o ystyriaethau allweddol Cyngor Bro Morgannwg yw ein bod yn gweithio gyda'r cyfuniad o bartneriaid sy'n gwneud synnwyr busnes, ac nid ar y sail eu bod yn cael eu hystyried yn "daclus" ar fap. Nid yw anghenion ein dinasyddion yn llinol ac nid ydynt wedi'u hadeiladu o gwmpas ein strwythurau llywodraethol. Felly, mae angen strwythuro darpariaeth gwasanaeth i weithio gyda sefydliadau ac ar draws sefydliadau lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny.

Rydym yn gyfforddus â chymhlethdod o ran diwallu anghenion cwsmeriaid ac mae'r mathau hyn o drefniadau "isranbarthol" yn adlewyrchu'r angen i feddwl y tu allan i lywodraeth leol yn unig, i'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus ehangach yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Nid yw'r obsesiwn â llywodraeth leol yn y modd hwn yn cofleidio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran ffyrdd o gynnwys, cydweithio ac integreiddio. Ceir achos da o ran newidiadau i'r ffordd y trefnir cyllid er mwyn cefnogi'r math hwn o gyflenwi.

Un o'r elfennau pryderus sy'n ymwneud â chynigion blaenorol yw sefydlu strwythurau llym ar gyfer llywodraethu rhanbarthol, isranbarthol a gwasanaethol. Ni ystyrir bod hyn yn ddefnyddiol, ac ym mhob achos dylid osgoi haenau dianghenraid o lywodraethu ychwanegol a biwrocrataidd. Mae hyn yn arbennig o

wir gydag uno gorfodol lle nad yw'n glir y rhennir amcanion ym mhob maes gwasanaeth, oherwydd natur ardaloedd cyfansoddol arfaethedig yr awdurdod newydd. Mae gwir angen i aelodau etholedig lleol oruchwylio a chraffu ar berfformiad y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt ac i alluogi dinasyddion i ddylanwadu a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'r trefniadau presennol. Ceir achosion lle mae symud i fodelau llywodraethu gwahanol yn gwneud synnwyr, lle mae'n gymesur â'r ffordd y mae gwasanaethau wedi'u cynllunio. Un enghraifft allweddol o hyn yw’r Ddinas Ranbarth, lle mae’n gwneud synnwyr gwirioneddol i gael cynllunio strategol, datblygu economaidd a thrafnidiaeth ar sail deg awdurdod. Fodd bynnag, mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyrdd yn peri risg sylweddol i ddatblygu trefniadau Dinas Ranbarth. Mae’r Fargen Ddinesig ar bwynt tyngedfennol wrth ddatblygu projectau gwirioneddol a diriaethol. Caiff penderfyniadau eu gwneud ac mae adnoddau wedi'u dyrannu i ddatblygu projectau a fydd yn gwneud gwir drawsnewidiad ar draws y rhanbarth er lles ein dinasyddion presennol a rhai’r dyfodol.  Mae tynnu sylw gwleidyddion a swyddogion oddi wrth y gweithgaredd hwn trwy broses o ad-drefnu dianghenraid yn risg enfawr o ran lleihau capasiti a momentwm.

Gall y Cyngor hwn ddangos bod ymdrech sylweddol wedi ei gwneud o ran gweithio’n gydweithredol dros y pum mlynedd diwethaf, a bod manteision yn cael eu cyflenwi o ganlyniad.

Yn achos iechyd a gofal cymdeithasol, rydym wedi dangos yn glir ein hymrwymiad parhaus i rannu adnoddau a gwneud y defnydd gorau o sgiliau i ddarparu gwell canlyniadau i'r dinesydd. Rydym wedi sicrhau bod cyllid grant blaenorol a ddyrannwyd yn rhanbarthol i gefnogi gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddechrau, yn parhau i weithio'n rhanbarthol er gwaethaf bod yr arian hwn yn cael ei ymgorffori yn RSG y sefydliad. Dengys hyn bod gennym hanes profedig o weithio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddoeth gyda'r dinesydd wrth wraidd y gwaith, heb gael ein gorfodi i wneud hynny. Parhawn i ddatblygu'r gwaith hwn gyda'n partneriaid, a lle mae aeddfedrwydd y berthynas yn dangos bod cynllunio rhanbarthol a chyflenwi gwasanaeth yn rhoi gwerth gorau naill ai’n ariannol neu er budd mwyaf y dinesydd – yna rydym yn cydweithio i gyflawni hyn. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r defnydd o arian trawsnewid o ganlyniad i'r Adolygiad Seneddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae Gwariant ar Ofal Cymdeithasol yn gyfran arwyddocaol o gyllidebau'r Cyngor oherwydd y galw uchel sydd ar y gwasanaethau hyn, a dylai Llywodraeth Cymru gydnabod hyn yn llawn, fel y mae’n gwneud gyda'r gwasanaeth iechyd. Er enghraifft, cynyddodd Llywodraeth Cymru y gyllideb sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd ond yn ei lleihau i awdurdodau lleol, gan greu pwysau anochel ar ofal cymdeithasol. Mae'r adolygiad Seneddol wedi pennu’n benodol dro ar ôl tro mai ymateb lleol sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. Er mwyn bod yn glir, crybwyllir y pwyslais ar drefniadau lleol 86 gwaith yn y ddogfen. Mae'r ddogfen hon yn hollbwysig gan ei bod yn llywio sut rydym yn datblygu trefniadau cyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a lleol (sic).

Mae'r gallu i rannu adnoddau a chefnogi gweithio rhanbarthol er lles y dinesydd yn gweithio'n dda ym Mro Morgannwg a dewiswn ein partneriaid ar sail y senario hon.

| |
|---|
| Mae’n ffordd gryfach a mwy cynhyrchiol o weithio, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, gwybodaeth a gweledigaeth glir i wella gwasanaethau i'r dinesydd. Bydd camau gorfodol yn golygu cam yn ôl, lle bydd tensiynau yn bodoli gan na fydd y sefydliadau yn ymrwymedig nac yn perchnogi’r gwaith. Mae’r dewis o bartner(iaid) yn hanfodol i adlewyrchu anghenion y cymunedau, blaenoriaethau, diwylliannau ac arferion gwaith y sefydliadau dan sylw.<br><br>Er enghraifft, ceir tystiolaeth o welliant dros amser ers sefydlu'r consortia addysg canol a de; mae'r perthnasau presennol hyn yn gweithio. Fodd bynnag, mae angen ymateb i'r her o ddiwygio'r cwricwlwm ac angen i'r consortia esblygu, felly gallai trosglwyddo unrhyw wasanaethau ychwanegol i gonsortia ymyrryd â’u prif swyddogaeth.<br><br>Mae gan y cyngor hwn ystod o gydweithrediadau effeithiol eraill gyda phartneriaid amrywiol a ddisgrifir yn fanwl trwy'r cyflwyniad hwn. Cynhwysa'r rhain y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir, y gwasanaeth archwilio mewnol ar y cyd, a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol. Yn ein seminar ddiweddaraf i’r holl uwch reolwyr, roedd cydweithio yn bwnc trafodaeth allweddol, a nodwyd nifer o fentrau newydd. Mae’r gwaith cychwynnol wedi dechrau i gwmpasu'r potensial ym mhob maes gwasanaeth gydag ystod eang o bartneriaid. Mae cyhoeddi'r Papur Gwyrdd wedi rhoi'r holl waith hwn mewn risg posibl, gan achosi oedi wrth ddatblygu'r agenda hon ac arwain at ansicrwydd ymhlith y rheiny sy'n gweithio i ddatblygu projectau, gan fod y gwaith yn cael ei ystyried yn gynamserol (unwaith eto). Mae hwn yn ganlyniad gwirioneddol i safbwynt newidiol parhaus Llywodraeth Cymru, ac mae’n dangos pa mor wrthgynhyrchiol yw'r Papur Gwyrdd hwn. |
| b) Beth yw eich barn chi am yr elfennau cyffredin i'r prosesau uno yr ydym yn eu cyflwyno yn yr adran hon? |
| **Y man cychwyn yw bod y Papur Gwyrdd, drwyddo draw, yn cyfeirio at y ffaith bod y ddadl yn trafod mwy na strwythurau yn unig, ond hefyd pwerau a hyblygrwydd. Fodd bynnag, mae'r papur yn 'ysgafn' iawn ar yr olaf. Nid oes unrhyw fanylion penodol yn ymwneud â'r pwerau a'r hyblygrwydd ychwanegol a fydd yn dilyn. Canolbwyntia'r papur ar fater uno ac, ar wahân i opsiynau amseru, nid yw'n darparu unrhyw opsiynau eraill a allai gyflawni amcanion tybiedig y papur. Mae'r obsesiwn hwn ag uno yn hynod niweidiol, ac mae cynnwys y Papur Gwyrdd yn hynod siomedig o ystyried rhagair yr Ysgrifennydd Cabinet, sy'n datgan nad yw llywodraeth leol yn ymwneud â strwythurau a llinellau ar fap yn unig. Yn anffodus, mae hynny’n groes i’r hyn a ddywedir yng nghorff y Papur Gwyrdd.**<br><br>**Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gwrthod y broses arfaethedig o uno mandadol ac o ganlyniad, elfennau cyffredin y broses. Mae lleihau ansicrwydd, sicrhau bod newid yn cael ei arwain yn ddemocrataidd, a rhoi mwy o bwerau i lywodraeth leol yn hollol gyraeddadwy heb yr ail-lunio ffiniau sirol a gwrthdaro sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu. Os oes angen pwerau a hyblygrwydd ychwanegol, angenrheidiol a dymunol, gellid darparu'r rhain nawr. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i wneud yr hyn sy'n iawn ac angenrheidiol, ac i beidio â defnyddio newid strwythurol fel Ceffyl Pren Troea.** |

- **Eglurder ac Olion Traed**

Nid yw'r cyngor hwn yn cefnogi'r farn bod gorfodi ôl troed sy'n arwain at uno Cyngor Bro Morgannwg â Chyngor Caerdydd i greu un awdurdod yn ffordd briodol o ddarparu 'eglurder' ar sut y dylid darparu gwasanaethau. Mewn ardaloedd eraill o Gymru, efallai y bydd cydweithwyr yn teimlo bod 'ffit' naturiol gyda'r ôl troed, ac y gall uno awdurdodau wneud synnwyr yn yr achos hwnnw. Fodd bynnag, am resymau a ddadleuwyd ac a ddogfennwyd yn dda'n flaenorol, parha gwahaniaethau sylfaenol rhwng y Fro a Chaerdydd, a fyddai'n ei gwneud yn anodd i uno ddigwydd ar delerau hafal. Er bod y Cyngor hwn wedi gwneud y pwynt hwn dro ar ôl tro mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol, ymddengys bod y sylwadau hyn a ddadleuwyd ac a ddogfennwyd yn dda wedi cael eu hanwybyddu wrth ddrafftio'r papur hwn (er bod cyfeiriadau bob hyn a hyn at bryderon a fynegwyd yn flaenorol yn hen ranbarth Gwent a Gogledd Ddwyrain Cymru (gweler tudalen 22, paragraff 4.4)). Yn y bôn, mae'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud â maint (yn fras, mae Cyngor Caerdydd dair gwaith maint y Fro) a natur y cymunedau y mae'r cynghorau yn eu gwasanaethu: mae Caerdydd yn gytref ddinesig gyda phoblogaeth ddwys ac mae'n brifddinas, gyda phob peth sydd ynghlwm â hynny, tra bod cymeriad y Fro yn un o ardal wledig sylweddol, gyda threfi a phentrefi ardal bychain a threfi arfordirol. Mae sefydlogrwydd yn bwysig a chyda hynny, daw eglurder. Ni fyddai'r cynigion a nodir yn arwain at alinio gwasanaethau gwella ysgolion, y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol, Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, neu ein gwasanaeth archwilio mewnol a rennir, er enghraifft. Mae'r holl wasanaethau cydweithredol hyn yn gweithio'n effeithiol oherwydd eu bod ar raddfa ac ôl troed sy'n gwneud synnwyr, ac mae ganddynt fanteision clir i'r dinasyddion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Nid oes angen uno i 'ychwanegu eglurder' at sefyllfaoedd sydd eisoes yn gweithio'n effeithiol rhyngom ni a Chyngor Caerdydd, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a rhyngom ni a phartneriaid eraill o ran meysydd gwasanaeth eraill. Fodd bynnag, byddai uno yn ymyrryd â'r cydweithrediad parhaus hwn, ac mae perygl gwirioneddol y gallai cydweithrediadau sy'n ychwanegu gwerth a gwneud synnwyr yn cael eu datgymalu fel canlyniad uniongyrchol i ddargyfeirio sylw oddi wrth y fath weithgaredd.

- **Newid a arweinir gan ddemocratiaeth**

Mae'r cyngor yn cefnogi'r farn y dylai unrhyw newidiadau a gyflwynir i'r gwasanaethau a ddarparwn gael eu rheoli trwy broses newid strwythuredig a arweinir yn ddemocrataidd, fel sy'n wir ar gyfer pob prif ymgymeriad ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw angen i hyn gael ei amlinellu gan Lywodraeth Cymru. Yn lle hynny, dylai fod wedi'i gynllunio a'i gyflenwi gan ein haelodau etholedig ein hunain sydd â'r wybodaeth, y sgiliau, y profiad a'r mandad lleol i oruchwylio newid yn yr ardal hon o Gymru. Enghraifft wych o sut y gellir cyflwyno newid yn llwyddiannus yw datblygiad a chyflwyniad y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir ar gyfer Bro Morgannwg, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr. Dengys y project hwn (gyda chymorth Cronfa Cydweithio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru), pan ddarperir y pecyn cymorth cywir a'r annibyniaeth i ddewis partneriaid priodol a model gweithredu, y gellir cyflwyno newid sylweddol ar gyflymder ac ar raddfa gyda goruchwyliaeth briodol gan y rhai a etholir yn lleol i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol. Dyma ddyfodol llywodraeth leol Cymru, fel mae CLlLC wedi ei nodi'n glir ac yn gyson.

- **Cefnogaeth a Chymorth**

Byddem yn croesawu cefnogaeth a chymorth priodol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach weithgaredd rhanbarthol hyfyw a phriodol. Ni all y cyngor hwn gefnogi'r farn bod gwario £250m ar ad-drefnu cenedlaethol o lywodraeth leol ar adeg o gyfyngiad ariannol sylweddol yn ddefnydd priodol o arian cyhoeddus. Amcangyfrifir bod yr arbedion arfaethedig yn £400-930m, sy'n llawer llai sicr o gael eu cyflawni na'r costau ad-drefnu hysbys. Amcangyfrifwyd yr arbedion hyn nifer o flynyddoedd yn ôl fel rhan o waith Comisiwn Williams, sydd bellach yn hen ffasiwn, yn ogystal â bod yn gynhennus ar y pryd. Yn wir, mae'r ddibyniaeth a'r cyfeiriad cyson yn ôl at waith Williams trwy gydol y Papur Gwyrdd yn dangos diffyg cryfder a dadansoddiad angenrheidiol yn y cynigion hyn. Er hynny, mae'r Papur Gwyrdd yn cydnabod bod llawer o arbedion eisoes wedi'u cyflawni trwy gydweithio a rennir ac ar y cyd, yn ogystal ag oddi mewn i Gynghorau unigol trwy drawsnewid. I ailadrodd, ers yr adeg hon, cyflwynwyd arbedion sylweddol gan lywodraeth leol. Yn y Cyngor hwn, mae ein rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ein hunain wedi cyflawni arbedion ariannol sylweddol, gan drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau a dulliau mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Ym Mro Morgannwg, nid ydym wedi cau llyfrgelloedd ond yn hytrach gweithiwn gyda grwpiau cymunedol i'w cadw'n agored, ac ar yr un pryd yn cyflawni arbedion blynyddol o £500k. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau a rennir fel yn achos Archwiliad Mewnol (CBS Pen-y-bont ar Ogwr) a Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr). Rydym hefyd wedi cyflwyno dulliau arloesol o leihau ein 'costau' fel symud i gynllun car pwll, i leihau costau milltiroedd o £100k y flwyddyn. Rydym wedi trawsnewid ein dull o ddatblygu ac ymgysylltu â staff er mwyn sicrhau bod ein gweithlu'n ymgysylltu'n llawn, yn arloesol ac yn ymfalchïo mewn cyflenwi i ddinasyddion Bro Morgannwg. Ac yn wahanol i gyrff cyhoeddus eraill sy'n uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru, bu hyn ar gost niwtral ac mae'n cael ei gyflwyno'n fewnol gan ein gweithlu ein hunain, ar gyfer ein gweithlu ein hunain. O'r herwydd, mae'n siomedig nad yw'r Papur Gwyrdd hwn yn ystyried yn fwy manwl gywir ac yn cydnabod y ffordd y mae Cynghorau eisoes wedi trawsnewid a newid dulliau i sicrhau eu bod yn parhau ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn ac yng nghyd-destun trawsnewid a chydweithredu parhaus, nid yw'n glir beth fyddai'r gwir arbedion a p'un a ellid gwrthbwyso hyn gyda'r costau - yn nhermau ariannol ac o ran cyflenwi gwasanaeth. Gellid defnyddio cyllid yn fwy hyblyg i gefnogi awdurdodau lleol i gyflwyno newid pellach (gan gynnwys cydweithio ac, mewn rhai achosion, uno) yn hytrach nag ailstrwythuro eang a mympwyol.

- **Pwerau Brys**

Mae'r Cyngor yn gefnogol i'r defnydd priodol o bwerau brys i gyfuno awdurdodau sydd mewn anawsterau difrifol, ond nid yw'n rhagweld y bydd y sefyllfa hon fyth yn berthnasol i Gyngor Bro Morgannwg.

Darperir rhagor o wybodaeth yn yr ymateb i'r cwestiynau ymgynghori sy'n dilyn.

| | |
|---|---|
| c) | Beth yw eich barn chi am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym ar gyfer creu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint? |
| | |

**Nid ydym yn cytuno â'r opsiynau ar gyfer creu llai o awdurdodau mwy, ar ôl troed wedi ei orchymyn. Mae rhagosodiad safbwynt Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ragdybiaeth bod llai o awdurdodau mwy yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae hon yn ddadl ddiffygiol, wedi'i gwanhau ymhellach gan safbwynt newidiol parhaus Llywodraeth Cymru.**

**Yn hytrach na chael dadl academaidd dros wahanol fanteision ac anfanteision y tri 'opsiwn', dylem fod yn canolbwyntio ar opsiynau y gellid eu cyflawni mewn gwirionedd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw opsiynau gwirioneddol heblaw uno, ac mae hyn yn dangos diffyg meddwl a chydnabyddiaeth o weithio'n fwy adeiladol gyda llywodraeth leol i lunio cynllun ar gyfer sut y gellid darparu gwasanaethau yn y dyfodol.**

Fel y dywed y Papur Gwyrdd "mae gwahanol ffyrdd y gallwn ni gyrraedd at awdurdodau mwy, cryfach". Mae'r Papur hefyd yn nodi bod "diwygio llywodraeth leol yn ymwneud â mwy na newid strwythurol". Fodd bynnag, nid yw'r Papur Gwyrdd yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer opsiwn lle byddai rhai awdurdodau lleol yn parhau i fod fel y maent wedi ei strwythuro ar hyn o bryd, ond yn hytrach gwneir hi’n ofynnol i bawb uno. Barn Cyngor Bro Morgannwg yw bod hyn yn fympwyol ac yn ddiangen ym mhob achos (ac yn benodol yn ein hachos ni ein hunain) i gwrdd â'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni, yn seiliedig ar yr amcanion tybiedig a gynhwysir yn y Papur Gwyrdd:

- Cynghorau a werthfawrogir gan eu cymunedau;
- Cynghorau sydd â'r pwerau, y gallu a'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus y mae eu hangen ar ein dinasyddion;
- Awdurdodau lleol sy'n cefnogi cymunedau trwy ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn sicr, mae honiad Comisiwn Williams, a nododd “bod ardaloedd cynghorau llai yn wynebu her sylweddol o ran cyflenwi’n gyson, a sicrhau’r gwydnwch, arbenigedd a'r arweinyddiaeth sy'n gallu trawsnewid eu sefydliadau a chefnogi eu cymunedau mewn byd cymhleth a newidiol" yn berthnasol i rai cynghorau. Fodd bynnag, wrth ymdrin â'r cwestiwn a oes cysylltiad rhwng maint y cyngor a'i gapasiti, credwn fod angen cyrraedd màs critigol os yw holl swyddogaethau awdurdod unedol i'w cyflawni'n effeithiol.

Rydym wedi haeru’n gyson bod maint cyngor y Fro yn ei alluogi i gynnal yr ystod honno o swyddogaethau tra'n dal i ymateb i anghenion lleol a chynnal atebolrwydd democrataidd lleol. Gallwn ddweud hyn yn hyderus gan fod ein record yn dangos hynny.

Nid yw'n wir mai'r mwyaf yn y byd yw sefydliad yna’r mwyaf economaidd neu effeithiol yw. Mae pellter oddi wrth y cyhoedd a'i staff ei hun, a'r angen i gyflwyno strwythurau i wneud iawn am ei faint, yn anfanteision. Mae'r anfanteision hyn yn lleihau’n ddifrifol dadl Llywodraeth Cymru dros ddiwygio strwythurol pob awdurdod lleol yng Nghymru, a yrrir gan awydd i fod yn ymatebol i gymunedau lleol, ac ymarfer sy'n gallu arbed symiau sylweddol o arian. Mae hyn yn wir yn arbennig yn achos Bro Morgannwg a Chaerdydd, lle byddai maint yr awdurdod arfaethedig, ymlediad daearyddol a nodweddion gwahanol gymunedau a wasanaethir (a'r heriau sy'n wynebu'r cymunedau hynny) yn ei gwneud yn ofynnol rhoi mesurau

digolledu yn eu lle i reoli ar draws yr awdurdod newydd, gan orbwyso'r manteision graddfa arfaethedig.  Enghraifft dda o hyn yn ymarferol yw'r strwythurau lleol sy'n cael eu sefydlu ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol gan y Bwrdd Iechyd i adlewyrchu maint daearyddol a natur wahanol rhannau o Gaerdydd a Bro Morgannwg, gyda thair ardal 'fro' yn eu lle i gydlynu a rheoli cyflenwad gwasanaethau. Ymhellach, mae byrddau iechyd, o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, yn parhau i ddatblygu trefniadau clwstwr lleol (64 ledled Cymru) i gyflenwi'n lleol i bobl. Mae'r dull hwn o ymdrin â gwasanaethau iechyd yn ymddangos yn anghyson â'r awgrym mai'r mwyaf yw'r gorau.

Mae enghreifftiau ymarferol lle mae'r symudiad i ffwrdd o benderfyniad a chyflenwi lleol wedi effeithio ar allu'r gwasanaethau i fod yn ymatebol yn lleol. Un enghraifft o'r fath yw rheoli'r Cynllun Datblygu Cymunedau Gwledig (RDP) a chynlluniau RDP eraill sydd wedi arwain at arafu dramatig yn y broses o arfarnu. Nid yw barn leol yn cael ei chynnwys yn y broses benderfynu, sydd wedi arwain at wrthod projectau mewn ardaloedd o angen.  Pan oedd Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu cyllid grant Echel 3 a 4 yn rhaglen 2007-13, cafodd projectau eu harfarnu a'u cymeradwyo o fewn 3 mis. Mae symud cyllid yn fewnol bellach wedi arwain at arfarnu sy'n cymryd gymaint â 19 mis, gyda chefnogaeth robotig a chyfyngedig i ymgeiswyr. Yn fwy pryderus, mae grwpiau a busnesau sydd â'r capasiti lleiaf ond y mwyaf o angen wedi gadael y broses. Mae rheoli cynlluniau cyllido Llywodraeth Cymru yn 'fewnol' bellach wedi arwain at loteri cod post ledled Cymru, gyda rhai ardaloedd yn gwneud yn dda ac eraill heb unrhyw brojectau wedi'u cymeradwyo. Yn y ddogfen ymgynghori buddsoddi rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod budd dull llawr gwlad Leader. Mae'n hanfodol bod hyn yn berthnasol i adfywio a chyllid grant yn y dyfodol. Arweinia dulliau unffurf rhanbarthol a chenedlaethol at golli hunaniaeth ac ymrwymiad lleol gan randdeiliaid. Hefyd maent wedi lleihau'r gallu i benderfynu'n effeithiol ar gyllid lleol a chyflenwi rhaglenni sydd wedi'u teilwra'n lleol. Teimlwn yn gryf bod unrhyw arbedion maint a gyflawnwyd hyd yma yn cael gorbwyso gan yr effeithiau negyddol ar fusnesau a chymunedau ym Mro Morgannwg.

Nid oes ateb hawdd i'r cwestiwn o beth yw'r maint gorau posibl ar gyfer sefydliad fel awdurdod unedol. Y cyfan y gall ei wneud yw dangos ei allu i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Bydd y farn ar Gynghorau'n digwydd drwy reoleiddwyr allanol, sefydliadau partner a phobl leol (yr olaf yn mynegi eu barn trwy fecanweithiau ymgysylltu a gyflwynir gan y cyngor).

Mae tystiolaeth gref bod costau uned Cyngor Bro Morgannwg yn isel tra bod ei wasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol. Mae pwyslais bwriadol o safbwynt y Cyngor ar gadw costau'n isel trwy ddisgwyliad cynhyrchiant staff uchel, a'r ystod eang o ddyletswyddau y mae rheolwyr yn nodweddiadol yn eu perfformio. Dengys gwybodaeth feincnodi a geir wrth lunio achosion busnes ar gyfer cydweithio â chynghorau eraill yn gyson bod gennym gost is fesul gwasanaeth o'i gymharu â chynghorau eraill, a chadarnheir hyn gan sefyllfa'r Cyngor fel y gwariwr pedwerydd isaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Cyn belled ag y ceir ansawdd da o ran gwasanaethau, mae hyn yn rhywbeth y creda'r cyngor ddylai fod yn nod cyson.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn derbyn yr ail lefel isaf o arian fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, tra'n cael ei restru fel awdurdod lleol sy'n perfformio

orau yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf (yn seiliedig ar y data perfformiad a gynhyrchwyd gan Uned Ddata Cymru). Ni fyddai'r pum prif Gyngor sy'n perfformio uchaf yng Nghymru yn seiliedig ar y set ddata hon yn cael eu dynodi gan Lywodraeth Cymru fel rhai 'mawr', ond mae eu perfformiad yn well na chynghorau mwy a ystyrir fel partneriaid posibl. Dylai perfformiad fod yn yrrwr allweddol mewn unrhyw newidiadau, gan lefelu i fyny, nid gwanhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r methiant i ystyried perfformiad a gallu yn wendid sylweddol a sylfaenol yn y Papur Gwyrdd.

Yn Asesiad Corfforaethol cynhwysfawr diweddaraf y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, casgliad Swyddfa Archwilio Cymru oedd bod "gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno'i gyflawni ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i sicrhau gwelliant ". Meddai Mark Drakeford AC ar y pryd, "Mae llinell glir o ran yr hyn y mae'r awdurdod lleol am ei gyflawni a sut mae'n bwriadu gwella bywydau'r bobl y mae'n eu gwasanaethu".

Yn yr Arolwg Barn Gyhoeddus a gomisiynwyd fwyaf diweddar (a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2016 a Ionawr 2017), roedd boddhad cyffredinol gyda gwasanaethau'r Cyngor wedi cynyddu i 92%, o'i gymharu ag 84% yn 2014/15. Mae'r Cyngor yn gallu gweithio gyda chymunedau oherwydd ein bod yn nes at y rhai yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae canlyniadau ein harolwg staff (Mawrth 2018) yn tynnu sylw at gynnydd mewn positifrwydd ar draws 15 o'r 20 ymrwymiad Siarter Staff a wnaed i staff, gyda phositifrwydd cyffredinol wedi codi o 71% i 72% dros y flwyddyn.

Rhoddwyd y Cyngor ar y rhestr fer mewn pum categori ar gyfer chwe chyflwyniad yng Ngwobrau Cronicl Llywodraeth Leol 2018, yn enwedig ar gyfer Trawsnewid Busnes yn ymwneud â'n rhaglen newid trawsnewidiol ac ymgysylltu â staff. Daw hyn lai na blwyddyn ers ein rhoi ar y rhestr fer ar gyfer Awdurdod Lleol y Flwyddyn gan y Municipal Journal. Mae gan Gyngor Bro Morgannwg raglen newid drawsnewidiol sefydledig, Ail-lunio Gwasanaethau. Gan fabwysiadu model economi gymysg i drawsnewid gwasanaethau ar draws y sefydliad, mae'r rhaglen yn targedu arbedion sylweddol (£15m dros 4 blynedd) ac yn ysgogi newid diwylliant yn ein cyngor ar raddfa ddigynsail. Mae'r canlyniadau'n dangos llwyddiant, ac mae ein staff yn nodi eu hymrwymiad gyda graddfeydd cymeradwyaeth uchel ar gyfer y ffordd y maent yn ymgysylltu. Mae'r awdurdod yn ymrwymo amser sylweddol i gyflawni hyn, a byddai uno yn dargyfeirio hynny, a pheryglu'r canlyniadau.

Cefnoga'r dystiolaeth hon ein haeriad bod gan Gyngor Bro Morgannwg y raddfa, capasiti a gallu digonol i gyflenwi fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddymuno. Mae gennym record dda hefyd. Dim ond os ystyrir bod newid strwythurol yn angenrheidiol ar gyfer pob cyngor, y mae'r "diffyg [o] gynnig amgen credadwy, ar wahân i ddarparu mwy o arian" y cyfeirir ato ym Mhennod 3, yn berthnasol. Mae'r gofyniad i 'ymrwymo' i uno cyn cael unrhyw bwerau newydd yn gyfyngol, gan y gallai'r cyngor hwn elwa o'r pwerau ychwanegol hynny a gwella perfformiad ymhellach heb orfod rheoli uno.

Gweler isod farn y Cyngor ar bob un o'r 'opsiynau' arfaethedig.

Opsiwn 1 – Uno Gwirfoddol

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi’r syniad o uno’n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.

Cyflwynodd Cyngor Bro Morgannwg gynnig datblygedig a chydlynol ar gyfer uno gwirfoddol gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn 2014. Datblygwyd hyn mewn ymateb i bolisi Llywodraeth Cymru ar y pryd i geisio barn awdurdodau lleol ar sut i fynd ati i ddatblygu'r hyn a oedd yn ymddangos yn agenda pendant o uno. Fodd bynnag, ni fyddai cynnig o'r fath yn cael ei ystyried yn awr gan Lywodraeth Cymru oherwydd yr ôl troed gorfodol a ddisgrifir yn y Papur Gwyrdd. Y dadleuon a wnaed yn 2014 gan y Cyngor hwn oedd y byddai'r uno gwirfoddol yn galluogi'r ddau gyngor i gymryd rheolaeth o sefydlu'r sefydliad newydd ar gyflymder a oedd yn effeithiol ac yn hylaw, yn seiliedig ar gydraddoldeb maint a nodweddion tebyg. Ers yr amser hwnnw, mae llawer wedi newid yn nhirwedd llywodraeth leol. Mae'r gymysgedd effeithiol o wasanaethau a ddarperir yn lleol a chydweithredol, a chryfhau ymhellach berfformiad Bro Morgannwg, wedi ein galluogi i gyrraedd barn y byddai uno gydag unrhyw awdurdod lleol arall yn anghynaladwy o ran sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddisgwylir yn gywir gan ein dinasyddion.

Mae’r anfanteision o ansicrwydd i'r gweithlu a'r dinasyddion yn berthnasol i ad-drefnu llywodraeth leol yn ei gyfanrwydd, ac maent yn ffactorau allweddol o ran pam nad yw’r Cyngor hwn yn cefnogi uno Cyngor Bro Morgannwg gydag unrhyw awdurdod lleol arall.

Heb ragor o fanylion ynglŷn â pha wasanaethau neu atebion y ceisir dull gweithredu 'unwaith i Gymru' ar eu cyfer, mae'n anodd gwneud sylwadau. Fodd bynnag, pe bai hyn yn seiliedig ar wasanaethau trafodiadol fel y disgrifir ym Mhennod 6, nid oes angen i uno ddigwydd er mwyn darparu catalydd i wneud hynny. Byddai cefnogaeth Llywodraeth Cymru a nodi buddiannau i awdurdodau lleol yn ddigon o gymhelliant.

I ailadrodd, nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi’r syniad o uno’n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.

Opsiwn 2 – Dull Fesul Cam

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi’r syniad o uno’n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.

Fel dadl academaidd yn unig, byddai'r dull fesul cam yn galluogi'r awdurdodau hynny sy'n dewis uno i allu gwneud hynny yn gynharach. Byddai hefyd yn galluogi i sylw Llywodraeth Cymru gael ei ffocysu ar set o uniadau mwy hylaw lle mae awydd clir, parodrwydd neu angen i wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw mandadu bob uno arall erbyn 2026 yn ystyried neges ganolog y Cyngor hwn, sef nad yw uno'r holl awdurdodau yn angenrheidiol i gyflawni amcanion y Papur Gwyrdd.

Nid yw'n glir pam na all y pwerau a'r hyblygrwydd newydd a gynigir i gynghorau sydd wedi uno fod ar gael i bob awdurdod lleol fel modd o gefnogi newid trawsnewidiol a galluogi cyflawni amcanion y Papur Gwyrdd ar draws pob

awdurdod lleol. Mae diffyg parodrwydd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r pwerau hyn ar ôl sawl blwyddyn o drafodaeth yn siomedig.

I ailadrodd, nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.

Opsiwn 3 – Rhaglen Uno Gynhwysfawr Sengl

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.

Unwaith eto, fel dadl academaidd, ystyrir bod gorfodi ad-drefnu eang yn ddiangen ac mae deddfu ar gyfer uno yn 2022 yn debygol o waethygu'r risgiau a amlinellir yn y Papur Gwyrdd. Mae capasiti Llywodraeth Cymru a phob cyngor i reoli proses o'r fath yn yr amserlen hon yn risg allweddol.

Heb ragor o fanylion ynglŷn â pha wasanaethau neu atebion y ceisir dull gweithredu 'unwaith i Gymru' ar eu cyfer, mae'n anodd gwneud sylwadau. Fodd bynnag, pe bai hyn yn seiliedig ar wasanaethau trafodiadol fel y disgrifir ym Mhennod 6, nid oes angen i uno ddigwydd er mwyn darparu catalydd i wneud hynny. Byddai cefnogaeth Llywodraeth Cymru a nodi buddiannau i awdurdodau lleol yn ddigon o gymhelliant.

Fel y nodwyd uchod, nid yw'n glir pam na all y pwerau a'r hyblygrwydd ychwanegol i gael eu rhoi i awdurdodau heb uno, gan fod hyn yn achosi pwerau ymwahanol. Nodir y dadleuon sy'n ymwneud â 'graddfa' uchod ac rydym yn credu bod gennym raddfa ddigonol, yn gallu cael mynediad at drefniadau cydweithredol rhanbarthol lle bo'n briodol, i gwrdd â'r heriau sy'n ein hwynebu, er gwaethaf ein sefyllfa gyllidol.

I ailadrodd, nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.

d) A oes unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried ar gyfer creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint?

**Nid yw pwyslais Llywodraeth Cymru ar greu llai o awdurdodau mwy ar draws Cymru gyfan yn adlewyrchu realiti sefydliadau sy'n perfformio'n dda oherwydd eu bod o faint a graddfa ddigonol i wneud hynny. Mae opsiwn amlwg ar goll o'r Papur Gwyrdd, a hwn yw ceisio barn llywodraeth leol Cymru fesul achos, ac ymateb i'r farn honno fesul achos.**

Fel yr amlinellir uchod, mae'r opsiynau a ddarperir yn y Papur Gwyrdd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol uno, sy'n ymddangos yn fympwyol ac ddim yn ystyried perfformiad ochr yn ochr â 'maint' sydd i fod yn ffactor allweddol wrth nodi cynaladwyedd cynghorau.

Dull arall a ellid ei ddefnyddio yw ceisio barn llywodraeth leol er mwyn gweld beth yw'r awydd ymhlith cynghorau i uno. Mae'r amgylchedd yn wahanol iawn i'r un yn 2014 pan oedd hyn yn bolisi Llywodraeth Cymru yn flaenorol. Mae mabwysiadu

polisi lle mae cynghorau sy'n dymuno uno, neu lle mae achos clir iawn yn seiliedig ar berfformiad cymharol y cyngor i orfodi uno, yn debygol iawn o ddarparu cymysgedd o lai o awdurdodau mwy o faint, gyda’r rhai canolig sy’n perfformio'n uchel fel Bro Morgannwg yn cael eu cadw. Byddai hyn yn lleihau'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu, gan ganolbwyntio ymdrech lle y gellid cael y budd mwyaf ohono, ac osgoi ymyrraeth ddianghenraid yn y sefydliadau hynny lle mae'n amheus a yw'r manteision hirdymor yn gorbwyso costau'r ymarfer.

Dylai ein ffocws barhau ar weithio’n rhanbarthol lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny ac ar ôl troed sydd hefyd yn gwneud synnwyr. Mae atebolrwydd a chyflenwi lleol yn hanfodol mewn llywodraeth leol ac ni fyddai pellter o’r cymunedau a wasanaethwn yn cyflawni'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio.

Er enghraifft, os y dymunwn fod yn drawsnewidiol iawn, yna mae angen ailystyried deddfwriaeth i gefnogi ymarfer a phartneriaethau naturiol er mwyn sicrhau bod gofal, cefnogaeth a llesiant dinasyddion yn cael eu gwella'n gyfannol. Mae'r adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod hyn, ac mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn systemau fel WCCIS yn egluro'n glir yr angen i gefnogi ac integreiddio strwythurau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr un modd ag y mae Bro Morgannwg eisoes yn ei weithredu, ac wedi ei wneud ers mwy na 4 blynedd. Dengys rheolaeth integredig rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Bro Morgannwg bod y ffordd hon o weithio yn effeithiol, oherwydd gall cysylltiadau gael eu gwneud ar draws y sector a gwella'r canlyniadau i ddinasyddion.

e) A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â chost, manteision ac arbedion pob opsiwn a allai helpu i lywio'r penderfyniad? Os oes, rhowch fanylion.

**Mae hwn yn gwestiwn rhyfedd gan mai Llywodraeth Cymru sydd wedi gwneud y cynigion a geir yn y Papur Gwyrdd, a barn y Cyngor hwn yw, cyn ei gyhoeddi, y dylid fod wedi gwneud gwaith i sicrhau bod yr 'opsiynau' wedi'u harfarnu'n briodol gan gynnwys nodi'r costau, cynilion, buddion a risgiau manwl. Heb hyn, mae'r ddadl dros greu llai o awdurdodau mwy i ddarparu arbedion a buddion yn gwbl ddi-sail.**

Noda’r Papur Gwyrdd, "Gyda mwy o amser, mwy o allu a rhannu amcanion, gellid cyflawni mwy gyda'r arian sydd ar gael". Fodd bynnag, mae sylwadau o'r fath yn gwbl ddi-sail ac nid ydynt yn seiliedig ar unrhyw ddadansoddiad cadarn. O ganlyniad, nid yw'n glir sut y byddai'r uno yn creu mwy o amser a mwy o gapasiti os yw arbedion ariannol o'r maint a ddyfynnir yn y Papur Gwyrdd i'w gwireddu. Y maes uchaf o ran cost mewn llywodraeth leol yw ein staff a byddai ad-drefnu i wireddu arbedion o fwy na £400 miliwn yn arwain at golli nifer sylweddol o swyddi. Byddai hyn yn anochel yn effeithio ar y capasiti i ddarparu gwasanaethau hanfodol a byddai, heb amheuaeth, yn golygu bod y Cyngor mwy, wedi’i uno, yn llawer pellach oddi wrth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn enwedig pan fydd anghenion y cymunedau hynny mor wahanol, fel y byddai’n digwydd gyda Bro Morgannwg a Chaerdydd unedig.
Ymddengys Llywodraeth Cymru fel ei bod yn cynnig y dylid trefnu llywodraeth leol yn debyg i'r gwasanaeth iechyd. Y rhagdybiaeth felly yw bod y byrddau Iechyd yn

cael eu cymryd yn ganiataol, a'u bod yn perfformio'n gyson ac yn effeithlon o fewn y gyllideb, rhagdybiaeth a oedd yn bresennol pan adroddodd Comisiwn Williams. Yn amlwg, mae tystiolaeth a ffeithiau yn gwbl groes i'r rhagdybiaeth hon. Mae Byrddau Iechyd ledled Cymru wedi gorwario eu cyllidebau yn gyson er bod cyllid yn cynyddu. Mae cynghorau lleol wedi gosod cyllidebau cytbwys, er gwaethaf gostyngiadau ariannol ac wynebu pwysau galw tebyg. Ni ellir anwybyddu maint a chymhlethdod y ffordd y mae byrddau iechyd wedi'u strwythuro wrth ystyried perfformiad sefydliadol a'r angen am ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru i'w rhedeg. Mae'n nodedig hefyd mai'r Byrddau Iechyd yn gyson yw'r sefydliadau sy'n gorfod sefydlu is-strwythurau cydadferol ac atebion seiliedig ar ardal i ymdrin â materion 'graddfa', y gellid eu hystyried fel gorbenion ychwanegol a dyblygu.

**Pennod 4**

Cwestiwn Ymgynghori 2

Mae Pennod 4 wedi egluro'r angen am eglurder ar y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a'r ystod o ffactorau y dylid ei hystyried wrth benderfynu ar ffurf newydd. Mae'n cynnig patrwm posibl ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, y gellid ei gyflawni drwy bob un o'r opsiynau a drafodwyd yn y bennod flaenorol

a) Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y patrwm ar gyfer llywodraeth leol y dyfodol?

**Mae llywodraeth leol wedi dioddef pedair blynedd a mwy o ddiffyg eglurder mewn cyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn parhau i ddarparu diffyg eglurder cyffredinol. Er gwaethaf yr effaith barhaus y mae hyn yn ei gael ar forâl, mae'r cyngor hwn yn parhau i berfformio, trawsnewid a chydweithio. Mae olion traed yn ymyrraeth, o gofio'r angen i gydweithio ar sail rhwydwaith, nid ar sail linol. Addawodd Ysgrifennydd y Cabinet blaenorol ddeng mlynedd o sefydlogrwydd. Nid yw'r Ysgrifennydd y Cabinet presennol wedi darparu gwerth deng mis.**

Mae'r ymgais ddiweddaraf i gael 'eglurder' wedi achosi ansicrwydd pellach i'r gweithlu mewn cynghorau ledled Cymru, ac yn seiliedig ar ymdrechion blaenorol i ad-drefnu, gwnaed cryn ymdrech i drafod strwythurau yn hytrach na manylion y trefniadau cyllido a chyflenwi gwasanaethau. Mae'r Cyngor hwn (fel llawer o rai eraill) wedi nodi cynlluniau datblygu gweithlu penodol i sicrhau y gellir adnabod a datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer anghenion presennol a'r dyfodol. Ymrwymodd y Cyngor i ystod o weithgareddau cynllunio olyniaeth sy'n cynnwys prentisiaethau, hyfforddeion, cysgodi gwaith, rhaglen datblygu rheoli, fframwaith cymhwysedd a rhaglen ymgysylltu â staff ar raddfa ddigynsail. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyflawni gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn o ran boddhad staff. Fodd bynnag, mae cyhoeddi'r Papur Gwyrdd hwn wedi dod ag ansicrwydd sylweddol yn ei sgil, ac fe'i nodwyd eisoes fel y rheswm dros i staff adael y Cyngor i weithio mewn mannau eraill. Nid yw'r ansicrwydd parhaus yn help o ran gwneud y sector llywodraeth leol yn lle deniadol i weithio ynddo, a bydd denu cydweithwyr medrus addas i ymuno â ni yn heriol o ganlyniad i'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r newid cylchol hwn mewn cyfeiriad yn bygwth dadwneud yr ymdrech sylweddol a gyflawnwyd gennym i 'gario ein gweithlu gyda ni' yn ystod cyfnod o drawsnewid. Mae i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Papur Gwyrdd sy'n dangos y gallai arbedion sy'n rhedeg i mewn i gannoedd o filiynau o bunnoedd fod yn bosibl, heb unrhyw

arwydd o sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflenwi, unwaith eto wedi golygu pryder sylweddol i'n gweithlu y byddai eu swyddi mewn perygl pe bai'r polisi hwn yn cael ei weithredu.

Cytuna'r Cyngor bod darparu eglurder i lywodraeth leol yn bwysig ac mae wedi lobïo gweinidogion olynol i weithio gyda'r sector ac i gynnal dull cyson o ran polisi llywodraeth leol. Roedd yn dda bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cynigion blaenorol ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol ac wedi rhoi arian ac amser i alluogi i waith cydweithredol rhanbarthol barhau.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r agenda ranbarthol a bu ar flaen y gad o ran datblygiadau sylweddol yn hyn o beth, yn enwedig y Fargen Ddinesig (a gefnogir trwy secondiad uwch swyddog yn ogystal ag arwain ar ddatblygu cynigion ar gyfer yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol), y consortiwm gwella addysg, gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol (ni sy’n cynnal y gwasanaeth), Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (ni sy’n cynnal y gwasanaeth), iechyd/ gofal cymdeithasol integredig (gan gynnwys swyddi ar y cyd, strwythur rheoli cymhleth integredig, gwasanaeth adnoddau cymunedol pwynt cyswllt cyntaf, gwasanaeth rhyddhau integredig a thimau iechyd meddwl integredig). Mae gwasanaethau rhanbarthol yn eu lle gyda Chyngor Caerdydd, lle penderfynwyd y byddent o fudd, neu lle mae cyllid newydd wedi galluogi trefniadau o'r fath. Mae'r sefyllfa yn parhau i ddatblygu, fodd bynnag, mae gennym bellach uned ddiogelu ranbarthol, tîm dyletswydd brys rhanbarthol, siop offer ar y cyd, gwasanaeth awtistiaeth integredig, tîm iechyd meddwl rhanbarthol ar gyfer pobl hŷn, tîm cymorth teulu integredig ac uned hyfforddiant rhanbarthol sy'n gweithredu gyda Chyngor Caerdydd.

Mae cynigion CLlLC sy'n cefnogi cyfrifolaeth wrth ddylunio gwasanaethau yn bwysig a dylent fod yn gryf y tu ôl i unrhyw ad-drefnu arfaethedig o drefniadau cyflenwi gwasanaethau, p'un a ydynt yn gydweithrediadau neu’n strwythur cynghorau. Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi'r egwyddor y gall awdurdodau lleol eu hunain benderfynu ar y trefniadau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a'r gallu i fodloni'r blaenoriaethau hynny. Nid yw unrhyw ymgais i ragnodi’n ganolog gan Lywodraeth Cymru o fodel "un maint yn addas i bawb" yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

Felly ni chefnogir lefel y rhagnodi yn y Papur Gwyrdd am y rhesymau hyn. Mae'r dull ôl troed yn rhy syml gan nad yw'n cydnabod cymhlethdod a rhyng-gysylltiadau rhwng cynghorau ac ystod eang o sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Mae hefyd yn rhoi gormod o sylw i ffurf yn hytrach na swyddogaeth a pherfformiad. Yn wir, ymddengys nad yw perfformiad awdurdodau lleol presennol wedi bod yn ffactor a ystyriwyd wrth ddrafftio'r cynigion diweddaraf hyn, sy'n hynod o bryderus a diddychymyg. Hyblygrwydd sy’n gyfrifol am lwyddiant trefniadau gweithio cydweithredol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gorfodi uno ôl troed Bro Morgannwg a Chaerdydd, mae'n debygol iawn y byddai olion traed eraill yn parhau i ddod i'r amlwg beth bynnag, er y bydd y gallu i wasanaethu a chefnogi cydweithredu pellach yn cael ei atal gan lai o gapasiti a gorbwyslais ar 'faterion uno'. Yn hyn o beth, mae'r pwyslais ar uno yn hynod o debygol o dynnu sylw oddi wrth ddulliau cydweithredol parhaus ac arwain at dynnu’n ôl o weithgaredd ar gydweithredu pwysig oherwydd diffyg capasiti ac ymyrraeth.

b) Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym i lywio ein syniadau? A fyddech chi'n ychwanegu ffactorau eraill neu'n newid unrhyw ffactor?

**Mae'r ffactorau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio'n fanwl y ddadl y mae'r Cyngor hwn yn ei gwneud ynghylch yr hyn y dylai llywodraeth leol ei olygu - adlewyrchu cymunedau lleol, sicrhau atebolrwydd democrataidd a graddfa ddigonol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn disgrifio Cyngor Bro Morgannwg fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd, ac felly nid oes unrhyw resymeg i awgrymu uno gydag unrhyw awdurdod lleol arall. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffactorau fel:**

- **perfformiad**
- **rheoli adnoddau, neu**
- **farn rheoleiddio**

**y cyfan ohonynt yn ffactorau pennu pwysig sy'n nodi cryfder a chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffactorau hyn yn cryfhau ein dadl ymhellach, ac wrth gymhwyso'r ffactorau hyn, ni all y Cyngor gefnogi'r cynigion i uno gyda Chyngor Caerdydd nac unrhyw awdurdod arall.**

Er enghraifft, un ffactor yw bod 'ardaloedd awdurdodau newydd yn gysylltiedig â'u cymunedau ac yn eu hystyried'. Rydym eisoes yn gysylltiedig â'n cymunedau ac yn ystyried ein bod ni'n agos atynt ac yn buddsoddi ynddynt. Fel y disgrifiwyd uchod, mae natur yr ardal a'n cymunedau ym Mro Morgannwg yn gwbl wahanol i rai'r Brifddinas. Ein perthynas waith gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol sydd wedi caniatáu i ni (a hwy) lwyddo i sefydlu 5 llyfrgell gymunedol, yn hytrach na chau'r cyfleusterau. Byddai dull o'r fath wedi bod yn llawer anoddach, os nad yn amhosib, pe bai'r Cyngor yn sylweddol fwy ac yn bellach oddi wrth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Gellir dweud yr un peth am wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol megis trafnidiaeth gymunedol, digwyddiadau, cynlluniau chwarae a mentrau adfywio cymunedol. Mae gennym hefyd berthynas waith ardderchog gyda'r sector gwirfoddol ac mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i'n graddfa, a'n perthynas uniongyrchol â'r sector gwirfoddol. Byddai perthynas o'r fath yn cael ei pheryglu pe byddai'r Cyngor yn cael ei uno gydag un arall.

Awgryma'r Papur Gwyrdd y dylai 'sicrhau bod atebolrwydd democrataidd yn cael ei gynnal’ fod yn ffactor i'w ystyried, ac mae'r cyngor yn cytuno. Fodd bynnag, nid yw'r Papur yn rhoi manylion o gyfansoddiad cynrychiolaeth ardal Bro Morgannwg mewn unrhyw gyngor unedig newydd, ac felly mae'n gwbl debygol y byddai llais cymunedau ym Mro Morgannwg yn cael ei wanhau gan y cynigion fel y'u nodwyd.

Mae creu 'graddfa ddigonol i rymuso unrhyw awdurdod newydd i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus' yn ystyriaeth hollbwysig ac un y mae llywodraeth leol yn ei chefnogi'n llwyr. Mae'r cyngor wedi amlinellu uchod, isod, ac yn gyson, ei safbwynt o ran y cydbwysedd sy'n ofynnol rhwng graddfa ac ymatebolrwydd lleol. I grynhoi, mae maint y Fro fel ardal yn ddigonol i ddarparu'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen i fod yn awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru, gyda'r cydbwysedd cywir o wasanaethau a ddarperir yn lleol a chydweithredol. Nid ydym yn cefnu ar ddarparu gwasanaethau ar y lefelau mwyaf lleol (e.e. llyfrgelloedd cymunedol, cludiant cymunedol, gwasanaethau chwarae a digwyddiadau) ond hefyd y gwasanaethau mwyaf strategol fel y Fargen Ddinesig, iechyd a gofal

| |
|---|
| cymdeithasol a Gwella Ysgolion. Dyma fu strategaeth y Cyngor ers adroddiad Simpson, ac mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn adolygu'n rheolaidd gydweithredu strategol (ac unrhyw gyfleoedd posibl yn y dyfodol) fel rhan o gynllunio darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Mae'r ystyriaeth o 'roi llywodraeth leol mewn sefyllfa o gryfder a chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol ' o bwys mawr. Creda'r cyngor hwn bod angen dull mwy hyblyg o gymhwyso'r ffactor hwn. Nid oes angen i gryfder a chynaliadwyedd ddod o ailstrwythuro anhyblyg a chostus pob cyngor. Gellir ei gyflwyno yn fwy ailadroddol ac ymatebol ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys rhywfaint o ad-drefnu lle bo'n briodol a lle y cefnogir hyn, ond bob amser ar y cyd â llywodraeth leol wirioneddol gadarn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny.<br><br>Yn amlwg cefnogir yr ymgyrch i leihau'r amhariad ar wasanaethau rheng flaen trwy unrhyw newid. Fodd bynnag, bydd mabwysiadu polisi o ad-drefnu gorfodol, cyfyngol ar y raddfa a gynhwysir yn y Papur Gwyrdd yn cael effeithiau clir ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen trwy ansicrwydd y gweithlu, a thrwy dynnu sylw aelodau etholedig a rheolwyr oddi wrth y busnes craidd. |
| c) Beth yw eich barn chi am yr ardaloedd newydd a awgrymir yn yr adran hon? |
| **I'r cwestiwn hwn, dim ond ar y cynigion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Fro Morgannwg a'r uno arfaethedig gyda Chyngor Caerdydd y gall y cyngor roi sylwadau ystyrlon. Fel y disgrifiwyd drwy gydol ein hymateb, nid ydym o'r farn y bydd ail-lunio ffiniau gweinyddol yn arwain at wasanaethau gwell i'n dinasyddion.**<br><br>Gall 'ôl troed' rhanbarthol Llywodraeth Cymru fod yn briodol mewn rhai ffyrdd, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chaerdydd ar lawer o brojectau, ond ni ddylai fod yn sail ar gyfer bob gweithgaredd ar y cyd. Yn llai fyth y dylai fod yn sail i gyngor newydd. Y brif allwedd yw un o hyblygrwydd a'r gallu i wneud y trefniadau gorau posibl ar gyfer cyflenwi gwasanaeth. Nid yw un dull sy'n effeithio ar bob gwasanaeth yn adlewyrchu anghenion presennol ein dinasyddion na'u hanghenion yn y dyfodol.<br><br>Mae ystyriaethau ymarferol hefyd. Lle mae maint unrhyw gynghorau sy'n uno yn debyg, mae Cyngor newydd yn fwy tebygol o fabwysiadu arfer gorau o ba un o'r cynghorau a'i rhagflaenodd a ddangosodd hynny. Lle mae un cyngor mawr yn dominyddu, mae risg sylweddol mai'r arfer a fabwysiedir yw'r un a gynhaliwyd gan y mwyafrif o'r cyngor dominyddol, ac yn aml iawn, nid hwn fydd y dull cyflenwi mwyaf effeithlon.<br><br>Mae'r syniad o ymdeimlad o le yn ganolog i'n dadl, a bydd rôl cynghorau yn hanfodol wrth roi mynegiant iddo. Mewn arolwg barn gyhoeddus yn 2016/7, dywedodd 97% o'r ymatebwyr eu bod yn "falch o fyw yn y Fro". Os yw cynghorau'n rhy fawr, collir y cysylltiad â dinasyddion a chymunedau, yn groes i nodau amlwg y Papur Gwyrdd. Ein haeriad ni yw y dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau ar ei ffurf bresennol i hynny gael ei gyflawni. Hyd yn oed os yw gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn gwahanol ffyrdd, y cyngor ddylai fod y ddolen rhwng |

dinasyddion a gwasanaethau. Croesewir cynigion i gynyddu rôl cynghorau tref a chymuned ac mae'r awdurdod hwn yn datblygu’r trefniadau yn hyn o beth fel rhan o'n rhaglen newid trawsnewidiol, Ail-lunio Gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y mae'r Papur Gwyrdd ei hun yn cydnabod, nid yw strwythur dwy haen yn fanteisiol, ac felly’r trefniant gorau posibl yw awdurdod sy'n cydbwyso graddfa â chysylltiad lleol (fel y mae'r Fro yn ei wneud).

d) A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ac, os felly, pa wybodaeth sydd gennych i gefnogi'r rhain fel dewis arall?

**Ymddengys bod rhagdybiaeth o fewn Llywodraeth Cymru bod Comisiwn Williams yn gywir, bod cefnogaeth ymhlith y sector dros newid strwythurol, a bod y canlyniad yn ddarn o waith gyda thystiolaeth dda. Nid oedd yn gywir. Nid oedd cefnogaeth. Nid oedd tystiolaeth dda.**

Gwnaeth y Cyngor hwn achos yn 2014 i uno'n wirfoddol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gwrthodwyd hyn gan Lywodraeth Cymru. O'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol awgrymu unrhyw ddewisiadau amgen o ran ôl troed, gan y parha safbwynt y Cyngor y dylai Bro Morgannwg aros fel yn awdurdod unedol ynddo'i hun. **Dylai'r penderfyniad a ddylai unrhyw uno yn y dyfodol ddigwydd mewn mannau eraill yng Nghymru fod yn ganlyniad i gytundeb gan yr awdurdodau lleol hynny neu unrhyw ddiffygion sylweddol mewn perfformiad a/neu reoli adnoddau, lle y gallai Llywodraeth Cymru gyfiawnhau ymyrryd.**

Hoffai'r Cyngor hwn weld terfyn ar yr obsesiwn o gyfeirio'n ôl o hyd at Gomisiwn Williams, a bod alinio â'r ffiniau iechyd yn rhyw fath o ateb o bwys i'r materion a'r heriau sy'n wynebu llywodraeth leol. Nid yw.

e) Yng nghyd-destun y cynigion hyn, Oes yna unrhyw ddulliau eraill y dylem eu defnyddio i symleiddio trefniadau cydweithio ar lefel ranbarthol a rhwng cyrff cyhoeddus â'i gilydd yn yr ardaloedd awdurdod newydd? Os oes, beth ydyn nhw?

**Mae'r Cyngor yn cefnogi safbwynt cadarn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn hyn o beth - hynny yw, mai cynghorau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y trefniadau hyn yn seiliedig ar y partneriaethau sy'n cynnig synnwyr busnes ar gyfer yr ardal(oedd) gwasanaeth. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi hyn a pheidio â chynnig strwythurau biwrocrataidd sy'n lleihau atebolrwydd lleol ac ychwanegu haen ddiangen at gyflenwi a chynllunio gwasanaethau.**

**Pennod 5**

<u>Cwestiwn Ymgynghori 3</u>
Mae Pennod 5 yn trafod y dull arfaethedig ar gyfer trawsnewid a'r goblygiadau ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Pontio ac etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol o dan bob opsiwn

a) Ydych chi'n cytuno â'r broses bontio arfaethedig: sef sefydlu Pwyllgorau Pontio a sicrhau bod etholiadau i Awdurdodau Cysgodol yn gallu cael eu cynnal cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd?

**Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd ac felly cwestiwn academaidd yw hwn.**
Serch hynny, ac er mwyn darparu ymateb mor llawn â phosibl, byddai'n hanfodol cynnal etholiadau i Awdurdodau Cysgodol cyn y diwrnod breinio ar gyfer Awdurdodau newydd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn cael eu sefydlu i alluogi gwneud penderfyniadau allweddol cyn y diwrnod breinio. Holir am briodoldeb rôl Gweinidogion Cymru mewn penderfyniadau Pwyllgor Trawsnewid gan y gallai hyn agor y Cynghorau i her gyfreithiol.

b) Ydych chi'n cytuno, pe byddai opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, y dylem bennu dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol ym mhob cylch etholiadol?

**Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.** Fodd bynnag, os yw Cynghorau Unigol yn dymuno uno'n wirfoddol, mae'n briodol i'r cynghorau unigol dan sylw nodi dyddiad o'r fath, yn hytrach na chael dyddiad wedi ei osod arnynt.

c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y broses arfaethedig?

**Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.** Metha'r broses arfaethedig â chydnabod yr opsiwn o ran parhau â'r status quo (i rai cynghorau) ac felly mae'n tueddu'n llwyr at uno. Ystyrir bod opsiwn 3 yn anghyraeddadwy.

<u>Cwestiwn Ymgynghori 4</u>
Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu cynnal unrhyw etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2021.

A oes unrhyw reswm pam na fyddai mis Mehefin 2021 yn ddyddiad addas? Os felly, awgrymwch ddyddiad arall gan nodi'r rhesymau pam y byddai'r dyddiad hwnnw yn fwy addas.

**Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r syniad o uno'n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd.**

**Byddai'r risg o gamgymeriad gweinyddol sylweddol yn uchel pe bai etholiadau lleol yn cael eu cynnal mor agos at Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2021.** Ni ddylid tanamcangyfrif y weinyddiaeth sy'n gysylltiedig ag etholiadau lleol a'r rhain yw'r etholiadau mwyaf heriol o ddigon i'w gweinyddu o ystyried nifer yr enwebiadau, yr ymgeiswyr a'r amserlen statudol sy'n cymhwyso'r swydd yn agos at enwebiadau. Yn achos Bro Morgannwg yn unig, roedd etholiadau lleol yn cynnwys penodi i 23 Ward gyda 47 Aelod etholedig, a 62

| |
|---|
| Ward Cynghorau Tref a Chymuned gyda 269 Aelod Etholedig: ym Mro Morgannwg yn 2017, derbyniwyd160 o enwebiadau i Gyngor Bro Morgannwg a 320 enwebiad ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Mae pryderon pellach gydag Etholiad Mehefin 2021 yn cynnwys **dryswch pleidleiswyr o ganlyniad i orgyffwrdd ymgyrchoedd, apathi pleidleiswyr a newid cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru i ffwrdd o'r tymor 5 mlynedd arfaethedig ar gyfer Aelodau Lleol** i gyd-fynd â thymor Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol i Aelodau Cymru (mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru "Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" a datganiad ysgrifenedig Mark Drakeford AC ar 23 Mehefin 2016 yn cyfeirio at hyn). |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 5</u><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cynlluniau neu asesiadau sy’n gysylltiedig â chylchoedd etholiadol, er enghraifft asesiadau llesiant a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag unrhyw gylchoedd etholiadol newydd yn y dyfodol. A oes unrhyw gynlluniau neu faterion eraill a allai fod ynghlwm wrth y cylch etholiadol y mae angen inni eu hystyried? |
| **Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi’r syniad o uno’n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd. Wedi dweud hynny, mae'r cyngor hwn bob amser yn croesawu unrhyw ymgais i gydlynu cyflenwi’r gwahanol gynlluniau ac yn arbennig, mae'n ddefnyddiol i waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyd-fynd â phrosesau cynllunio'r cyngor.**<br><br>Fodd bynnag, rydym yn hyderus wrth reoli'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol ac yn cydnabod nad yw bob amser yn bosibl gosod bob peth yn ei drefn yn daclus. Mae cael y ddealltwriaeth, goruchwyliaeth ac ystwythder i ymateb yn allweddol. Cyflawnodd Cyngor Bro Morgannwg hyn yn llwyddiannus yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol, er enghraifft, sydd wedi pontio dwy weinyddiaeth wleidyddol. |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 6</u><br>Beth yw eich barn am y dull y dylid ei ddilyn i benderfynu ar derfynau'r adolygiadau etholiadol? |
| **Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi’r syniad o uno’n wirfoddol gyda Chyngor Caerdydd. Mae'r graddfeydd amser yn afrealistig ac ni ellir eu cyflawni o ystyried graddfa'r dasg a'r amser sydd ar gael i'w gweithredu, gan ystyried rhaglen Cymru Gyfan ac ymgynghori priodol.** Fel canllaw, dylid rhoi ystyriaeth i'r Prif Adolygiadau Ardal a gynhelir ar hyn o bryd gan LDBCW (rhaglen a ddechreuodd yn 2017, ac nad yw i fod i ddod i ben tan 2021).<br><br>Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 egwyddorion mewn perthynas â threfniadau etholiadol ac awgrymir y dylai hyn barhau i fod yn sylfaen ar gyfer yr holl Adolygiadau Prif Ardaloedd ac Ardaloedd Cymunedol. |

| **Pennod 6** |
| --- |
| Cwestiwn Ymgynghori 7 |
| a) Sut gall cynghorau ddefnyddio gwybodaeth eu haelodau etholedig am eu cymunedau, a'u cysylltiadau ynddynt, yn fwy effeithiol? |
| **Mae gallu aelodau etholedig i adnabod a chysylltu â'u cymunedau yn rhan ganolog o ddadl y Cyngor hwn ynghylch yr angen i gydbwyso maint awdurdod gyda'r gallu i ymateb yn lleol. Nid yw creu llai o awdurdodau mwy, gyda llai o aelodau etholedig pellach, yn ffordd o gyflawni hyn.**<br><br>Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynigion i wella cysylltiad aelodau â chymunedau. Bydd y cynigion sydd yn y Papur Gwyrdd yn cael effaith gwbl groes i hyn. Nid yw mwy yn golygu gwell. Bydd llai o gynghorwyr sy'n bellach oddi wrth y bobl yn arwain at ddatgysylltu â'r etholwyr ac yn cael effaith negyddol ar ddemocratiaeth leol a gwneud penderfyniadau. Bydd hefyd yn effeithio'n negyddol ar allu'r cynghorau i weithio gyda grwpiau a sefydliadau lleol wrth ddarparu a hefyd dylunio gwasanaethau sy'n atebol yn lleol.<br><br>Mae gallu datblygu gwybodaeth a chysylltiadau yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau gael yr amser a'r capasiti i wneud hynny. Mae lleihau nifer yr aelodau lleol etholedig (ar adeg cynyddu nifer y rhai ar sail fwy cenedlaethol i Aelodau'r Cynulliad) yn wrthgynhyrchiol.<br><br>Gall aelodau etholedig Cyngor Bro Morgannwg gynrychioli eu hetholwyr oherwydd eu bod yn agos atynt. Ni fyddai strwythur pellach yn cynorthwyo'r aelodau i gael gwell gwybodaeth a chysylltiadau yn eu cymunedau. Mae aelodau'r gwasanaeth yn rheolaidd yn edrych tuag at aelodau lleol i gael cyngor a gwybodaeth leol ar faterion. Felly, ystyrir bod rôl aelodau lleol yn sylweddol ac yn werthfawr.<br><br>Buddsoddodd y Cyngor hwn yn sylweddol i gefnogi'r garfan o aelodau etholedig 2017 ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach y gefnogaeth sydd ar gael i wella rôl yr aelodau. Mae hyn yn cynnwys cryfhau mecanweithiau adborth, a datblygu cyfres o sesiynau datblygu chwe mis i gefnogi cyfathrebu dwy ffordd pellach. |
| b) Sut y gallwn gydnabod yn well lefel y cyfrifoldeb o fod yn gynghorydd lleol? Pa newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael fyddai'n galluogi ystod ehangach o bobl i fod yn rhan o'r gynrychiolaeth ddemocrataidd leol? |
| **Mae'r Cyngor o'r farn bod canfyddiadau diweddar Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ddefnyddiol o ran nodi sut y gallai Llywodraeth Cymru gyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn y rhan hon o'r Papur Gwyrdd.** |

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Annibynnol (IRPW) ei Adroddiad ar ganlyniadau ei ymweliadau â'r 22 Awdurdod Unedol yn ystod 2017. Mae Prif Ganfyddiadau'r Panel fel a ganlyn:

- Nid yw'r Cyflog Sylfaenol yn dâl digonol am yr oriau a weithir: mewn llawer o achosion mae Aelodau'n gweithio am lai na'r isafswm cyflog.
- Nid yw Uwch Gyflogau yn gydnabyddiaeth ddigonol am y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen, yn enwedig o gymharu â swyddi eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae llwyth gwaith a rôl yr Aelodau wedi newid: cynyddodd yr oriau ac mae'r rôl yn awr angen golwg mwy strategol a gallu i weithio gyda phartneriaid.
- Dim ond rhan o'r rôl nawr yw cynrychioli etholwyr.
- Mae ansawdd y gefnogaeth a ddarperir i Aelodau yn broblem mewn rhai cynghorau (Ni ystyrir bod hyn yn wir yma, a gwnaethpwyd sylw ar ein dull o, er enghraifft, Sefydlu a Datblygu Aelodau a darpariaeth TGCh aelodau yn ystod ymweliad y Panel).
- Mae amrywiaeth yr aelodaeth yn gwella'n araf, ond mae gan sawl ffactor y potensial i weithredu yn erbyn mwy o amrywiaeth ymysg pobl sy'n sefyll ar gyfer etholiad. Cynhwysa'r rhain amharodrwydd yr aelodau presennol i gymryd y cyflog llawn ac i hawlio costau.

Fel cefndir, roedd y Cyflog Sylfaenol a bennwyd yn wreiddiol gan y Panel yn seiliedig ar enillion cyfartalog Cymru gyfan ac wedi'i gymhwyso pro rata i dair rhan o bump. Ar yr adeg honno, y farn a dderbyniwyd oedd y byddai Aelod meinciau cefn yn treulio 23 i 25 awr yr wythnos ar fusnes y cyngor a'r etholaeth. Ystyriwyd unrhyw amser dros ben fel "disgownt gwasanaeth cyhoeddus". Pe bai'r un aliniad yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd byddai'r cyflog sylfaenol yn fwy na £15,000 yn hytrach na'r cyflog presennol o £13,600. Penderfynwyd ar Uwch Gyflogau gan ddefnyddio lluosrifau o'r symiau sylfaenol.

O safbwynt cynyddu amrywiaeth, mae'r Panel wedi canfod "arwyddion calonogol" bod aelodaeth awdurdodau lleol yn dod yn fwy amrywiol gyda phobl iau a mwy o fenywod yn mynd i mewn i lywodraeth leol. Fodd bynnag, maent yn dal i fod yn y lleiafrif. Ceir tystiolaeth bod talu cyflogau wedi bod yn ffactor i wella amrywiaeth. I ddyfynnu ymatebion gan rai unigolion, "Nid wyf yn gwneud hyn oherwydd y tâl, ond ni allwn ei wneud hebddo". Dylai'r ad-daliad o gostau gofal fod yn ffactor arall i annog amrywiaeth ond mae'r nifer sy'n manteisio arno yn dal i fod yn siomedig a bydd llawer o aelodau a fyddai'n gymwys ac yn ôl pob tebyg gyda'r angen amdano yn eithrio'u hunain oherwydd yr hyn a dybient fyddai'n feirniadaeth gan y cyhoedd ar adeg cyhoeddi'r hawliadau costau. Mae gan gynghorau yr opsiwn i gyhoeddi'r costau hyn fel cyfanswm, heb enwi'r aelodau unigol.

Er gwaethaf yr uchod, mae'r pwysau economaidd sy'n bodoli wedi arwain at gynnydd o ddim ond £200 y flwyddyn yn yr hawl i Gyflog Sylfaenol i aelodau.

O ran y dyfodol, mae swyddogion wedi dechrau ymgysylltu ag aelodau o ran eu gwybodaeth "cyn-etholiad" o'r hyn sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod etholedig, ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael i'w paratoi ar gyfer y rôl os cânt eu hethol. Bydd y broses hon, yn ei thro, yn hysbysu dull y Cyngor o ran paratoi ar gyfer yr etholiad 2022.

| |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 8 |
| a) A oes unrhyw bwerau eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw? |

**Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynnig i Lywodraeth Cymru ddeddfu i roi pŵer cymhwysedd cyffredinol i'r Cynghorau ac yn cefnogi'r farn y byddai hyn yn galluogi'r awdurdod hwn i fabwysiadu dulliau hyd yn oed mwy arloesol o ran diwallu anghenion cymunedau. Fodd bynnag, ni ddylid cyfyngu ar ddarparu'r pŵer hwn i'r awdurdodau hynny sy'n uno yn unig (a'r rhai a amlinellir isod). Mae'r Cyngor yn cofleidio'r agenda ar gyfer newid mewn llywodraeth leol ac fel y nodwyd, mae'n gefnogol ac yn cyfrannu'n weithredol at weithio rhanbarthol. O'r herwydd, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i roi pŵer cymhwysedd cyffredinol i'r holl awdurdodau lleol a'r rhai a ddisgrifir isod.**

**Yr hyn sy'n bwysig yw'r hyn sy'n iawn o ran cyflenwi gwasanaethau lleol. Byddai'n gamgymeriad i ddal awdurdodau yn wystlon, trwy fabwysiadu safiad mai dim ond y rhai sy'n uno fydd yn elwa o bwerau a hyblygrwydd ychwanegol. Os oes gan y Cyngor record dda o ran darparu gwasanaethau ac enw da gyda rheoleiddwyr ac y byddai dinasyddion yn elwa petai'r Cyngor hwnnw yn derbyn rhyddid a chyfrifoldebau ychwanegol, yna pam ddylai Llywodraeth Cymru wrthod y pwerau hynny?**

Eisoes ysgrifennodd Cyngor Bro Morgannwg at y Gweinidog yn dilyn cais am farn awdurdodau lleol ar y pwerau ychwanegol y dylid eu darparu i lywodraeth leol (ac unrhyw ofynion sy'n feichus ac y dylid eu dileu). Darperir adborth y Cyngor eto ar gyfer cyflawnrwydd.

**Safonau Llyfrgell Cymru**. Nid yw'r dangosyddion manwl a gynhwysir yn y safonau hyn yn adlewyrchu'r ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn datblygu. Ym Mro Morgannwg mae cyflenwi agor awtomatig heb staff yn ogystal ag oriau agor â staff; datblygiad y mae ein trigolion wedi ei groesawu, wedi gwneud dangosyddion sy'n ymwneud â lefelau staffio mewn llyfrgelloedd yn ddiwerth. Nid yw 6$^{ed}$ fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cymru 2017-2020 yn cydnabod oriau agor heb staff, gan atgyfnerthu gofynion cyfyngol sydd wedi dyddio ar adeg pan ddylai arloesedd fel hyn gael ei groesawu. Mae dangosyddion mewnbwn megis y gofyniad i gyflawni 3.6 o staff (cyfwerth ag amser llawn) fesul 10,000 o'r boblogaeth yn amherthnasol. Dylai ansawdd a chanlyniadau'r gwasanaeth fod yn ganolbwynt unrhyw system o fesur perfformiad. Mae twf Llyfrgelloedd Cymunedol yn y Fro, gan weithredu fel hybiau cymunedol, yn amlygu diffyg priodoldeb y metrigau presennol. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor, mae'r llyfrgelloedd hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ehangu eu cynnig gwasanaeth i ddiwallu'n agosach anghenion eu cymuned leol tra'n parhau i weithio o fewn fframwaith y safonau cyfredol. Fodd bynnag, nid yw rhai metrigau megis gwariant refeniw a chyfalaf fesul 1,000 o'r boblogaeth yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae'r llyfrgelloedd hyn yn ei wneud i gyflawni canlyniadau gwell. Ers sefydlu'r cyntaf o bum Llyfrgell Gymunedol 18 mis yn ôl, maent wedi denu £950,000 mewn cyllid datblygu a ddefnyddir i wella adeiladau'r llyfrgell ond ni chaiff hyn ei gydnabod fel gwariant cyfalaf y Cyngor. Unwaith eto, mae hyn yn dangos y ddolen

| |
|---|
| frau rhwng y dangosyddion mewnbwn a'r canlyniadau. Am y rhesymau hyn, credwn fod Safonau'r Llyfrgell wedi mynd tu draw i’w defnyddioldeb, nad ydynt bellach yn addas i'r pwrpas, ac y dylid eu dwyn i ben.<br><br>**Ailgylchu Gwastraff**. O safbwynt awdurdod gwastraff, hoffem ofyn am welliant i Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau awdurdod i gyflenwi hysbysiad i aelwydydd at ddibenion cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu ac mae'n rhoi pwerau Awdurdod Gwaredu Gwastraff (WDA) i bennu'r mathau o gynwysyddion sydd i'w defnyddio ar gyfer casgliadau ac at ddibenion cynlluniau lleihau gwastraff. Fodd bynnag, mae angen mwy o bŵer i wneud i aelwydydd ailgylchu ac felly rydym yn gofyn am welliant sy'n adlewyrchu hyn i gynorthwyo'r WDA i gyflawni targedau ailgylchu statudol. Yn ogystal, o dan adran 47ZA, byddai angen pwerau ychwanegol i swyddogion awdurdodedig gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer cartrefi sy'n methu ag ailgylchu.<br><br>**Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR).** Er y gellir gwneud defnydd o ANPR, dim ond gyda rheolaethau rhwystrau fyddai hyn, sy'n tanseilio’r nod. Un o'r rhesymau y byddem eisiau ANPR yw er mwyn lleihau costau seilwaith o'u cymharu â systemau rheoli rhwystrau. Ar hyn o bryd dim ond os oes system rhwystr yn ei lle y gall Awdurdod Lleol ddefnyddio ANPR, mae hyn oherwydd bod y pwerau sydd ar gael iddo o dan Ddeddfau 1994 a 2004 o ran gorfodi yn mynnu bod PCN yn cael ei anfon drwy'r post.<br><br>**Refeniw Parcio Ceir.** Ar hyn o bryd mae rheolaethau ynghylch ble gellir defnyddio refeniw, ac ar adeg pan fo pwysau cynyddol ar gyllidebau awdurdodau lleol, mae angen mwy o hyblygrwydd arnom o ran sut y gellir defnyddio'r refeniw hwn. Y cyfeirnod statudol perthnasol yw Adran 55 Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984. |
| b) A oes rhyddid neu hyblygrwydd eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw? |
| **Mae'r Cyngor yn anghytuno’n daer â Llywodraeth Cymru sydd wedi nodi mai dim ond y cynghorau hynny sy'n cytuno i uno ddylai gael rhyddid a hyblygrwydd, p’un a oes achos gwirioneddol dros wneud hynny ai peidio. Mae dal llywodraeth leol yn wystl yn y ffordd hon yn fychanol, ac nid yw o gymorth. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhyddid a hyblygrwydd cyfartal i gynghorau lleol, y gofynnwyd amdanynt yn gyson, er mwyn inni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig - ein dinasyddion, a chyflenwi gwasanaethau o ansawdd ar eu cyfer.**<br><br>Fel y dywedwyd gan CLlLC, dylai Cynghorau fod â'r hyblygrwydd i ffurfio trefniadau partneriaeth ar y cyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus lle mae manteision clir o wneud hynny i'r partneriaid. Dylai llywodraeth leol fod yn rhydd i ddewis y partner(iaid) a pheidio â chael eu gorfodi i wneud hynny. Dylai'r trefniadau hyn fod yn hyblyg o ran y gwasanaeth/testun, adeiladu ar y trefniadau presennol, a pheidio ag ychwanegu haen ddiangen o fiwrocratiaeth. |

Cwestiwn Ymgynghori 9

a) Pa feysydd sy'n cynnig y cwmpas mwyaf i rannu gwasanaethau trafodiadol?

**Mae'r Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor i wasanaethau trafodiadol a rennir, lle gellir gwneud achos busnes sy'n sicrhau bod partneriaid sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth a rennir yn cael buddion o ran costau a safon y gwasanaeth. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi y byddai "Creu awdurdodau newydd â phwerau ychwanegol a mwy o hyblygrwydd yn gyfle i ail-gyflunio ac ailgynllunio gwasanaethau". Mae Cyngor Bro Morgannwg o'r farn ei bod yn bosib i'r pwerau a'r hyblygrwydd ychwanegol hyn gael eu caniatáu heb osod strwythur newydd ar gyfer pob cyngor yng Nghymru, a'u defnyddio i ddatblygu gwasanaethau a rennir ymhellach.**

Mae'r Papur Gwyrdd hefyd yn nodi "Byddai uno awdurdodau lleol yn helpu i ddarparu'r capasiti i ddatblygu gwasanaethau arloesol a hyblyg sy'n gallu diwallu anghenion yr 21ain Ganrif". Fel yr amlinellwyd uchod, er mwyn cynhyrchu'r arbedion a nodir yn y Papur Gwyrdd, byddai colli swyddi sylweddol ac mae hyn yn bygwth dileu capasiti yn hytrach na'i adeiladu. Mae gan y broses uno y potensial hefyd i dynnu sylw aelodau etholedig a swyddogion oddi wrth ganolbwyntio ar gyfleoedd i ail-lunio ac ailgynllunio gwasanaethau, yn ogystal â thynnu sylw oddi wrth ddatblygu cydweithredu.

Mae nifer o wasanaethau lle byddai'n ddefnyddiol archwilio gwasanaethau a rennir. Nid yw'r Cyngor yn credu y dylai'r cyfleoedd hyn gael eu hystyried yn amodol ar uno; yn hytrach, mae'r ysgogiad allanol i ystyried y cyfleoedd hyn bellach yn bodoli, gan fod cyllid llywodraeth leol a thirwedd cyflenwi gwasanaethau wedi newid yn sylweddol ers ymdrechion cynnar cydweithredu o'r fath.

Prif agweddau o wasanaethau trafodiadol a rennir ddylai fod lle y cynhelir proses gyffredin (serch y gwahaniaethau polisi lleol presennol y gellid eu cysoni â chytundeb y partneriaid hynny o'r gwasanaeth). Byddai'r Cyngor yn ystyried bod gwasanaethau rheng flaen allan o gwmpas, a byddai'n rhoi blaenoriaeth i'r prosesau/ gwasanaethau cymorth hynny sy'n gyffredin ar draws llywodraeth leol (a'r sector cyhoeddus ehangach, efallai). Mae'r Cyngor yn cefnogi syniadau Llywodraeth Cymru y gall technoleg ddigidol alluogi newid a lleihau'r amser arweiniol i ddarparu gwasanaethau/ atebion newydd. Mae gan hyn y budd ychwanegol o beidio â gorfodi gwasanaethau a rennir yn ffisegol o anghenraid, a gellir datblygu cyfres o ganolfannau cenedlaethol, rhanbarthol neu isranbarthol i oresgyn peth o'r pellter a brofir gan wasanaethau a rennir yn ganolog.

Byddai'r cyngor yn ystyried y gwasanaethau canlynol yn deilwng o ymchwil o ran eu potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a rennir:

- Casglu a gweinyddu Treth y Cyngor a Threthi Busnes (gyda threthi a osodir yn lleol yn aros)
- Prynu eitemau cyffredin - estyniad posibl i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol trwy fraich brynu
- Canolfannau cyswllt

- Gweinyddu pensiwn
- Cymorth TGCh
- Trwyddedu plant mewn cyflogaeth
- Gweinyddu budd-daliadau
- Cyflogres a phrosesau AD trafodiadol
- Tocynnau teithio consesiynol
- Prosesu Bathodyn Car Glas
- Prosesu DBS

Gallai cyfleoedd gwasanaeth a rennir eraill (nad ydynt o reidrwydd yn drafodiadol) gynnwys:

- Hyfforddiant a datblygiad sefydliadol
- Rheoli Perfformiad
- Archwiliad Mewnol
- Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Iechyd a Diogelwch
- Cludiant Teithwyr
- Dylunio ac Adeiladu Priffyrdd

Dylid ystyried perfformiad gwasanaethau a rennir yn 'drafodiadol' neu 'arferol', fel y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Er bod gwerth yn egwyddorion sylfaenol y trefniadau hyn, gall y gallu i berfformio ar lwyfan 'Cymru gyfan' fod yn gymhleth ac yn y pen draw arwain at sefydliadau a sefydlir i sicrhau arbedion yn dod ar gost gyffredinol i'r pwrs cyhoeddus mewn gwirionedd.

b) Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu trefniadau o'r fath?

**Ym mhob achos, nid yw'r Cyngor yn credu bod uno yn rhagofyniad i ddarparu gwasanaethau a rennir. Byddai cefnogaeth LlC trwy newidiadau i ddeddfwriaeth, mwy o hyblygrwydd a chymorth trwy fynediad at sgiliau arbenigol a buddsoddi mewn technoleg yn gweithredu fel cymhellion i ddarparu gwasanaethau a rennir. Byddent yn ffordd gadarnhaol o symud yr agenda hon ymlaen heb y dôn fygythiol a geir mewn mannau eraill yn y Papur Gwyrdd, sy'n ymddangos fel petai'n gwneud y cynnig i ddiwygio gwasanaethau yn amodol ar ymrwymo i agenda uno gostus a diangen.**

Dylai Llywodraeth Cymru geisio gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r trefniadau hyn. Mae cryn egni a phrofiad yn bodoli o fewn llywodraeth leol fel y gellir ei ddangos trwy ein dull o ddatblygu sefydliadol ac ymgysylltu â staff, sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae gan gynghorau ddulliau rheoli newid sydd wedi'u datblygu'n dda a fyddai, pe baent yn cael eu meithrin yn gadarnhaol, yn gallu gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i gyflenwi diwygiadau.

Byddai'r Cyngor hwn yn ei ystyried yn briodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a CLlLC i ddatblygu rhestr fer o wasanaethau y gallai rhannu gwasanaethau fod yn fanteisiol iddynt. Dylai gwaith defnyddiol iawn adolygiad Simpson a'r dirwedd bresennol o gydweithio lywio'r

| |
|---|
| blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaethau hynny a weithredir yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol.<br><br>Lle byddai trefniant cenedlaethol yn cyflenwi'r budd mwyaf (er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau cymharol fach sy'n gweithredu gydag ychydig o wahaniaethau polisi ar draws y wlad), byddai'n werthfawr sefydlu'r trefniadau hyn mewn un symudiad cynhwysfawr. Lle mae angen cysylltiad mwy lleol, neu os yw'r raddfa brosesu yn fwy, efallai mai trefniadau rhanbarthol/isranbarthol fyddai'r dull gorau o weithredu. |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 10</u> |
| a) Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu dull cyson ar draws Cymru, lle bo cysondeb yn bwysig, sut ydych chi'n meddwl fyddai orau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth ar y materion hyn? |
| **Cred y Cyngor hwn bod y cynigion a nodir yn ceisio safoni diwygio llywodraeth leol heb ystyried yr amgylchiadau lleol amrywiol sy'n gyrru'r angen am uno. Gall y dull eang hwn o 'ddiwygio' fod yn fwy niweidiol nag yw o ddull a allai fod o fudd i ddinasyddion Cymru. Mae potensial i gefnogi rhannu gwasanaethau ar lefel genedlaethol, a dylai Llywodraeth Cymru feithrin hyn yn gadarnhaol a pheidio â'i gymysgu gydag ymgais i ail-lunio'r holl ffiniau.**<br><br>Mae cysondeb yn bwysig yn y dull a gymerir gan Lywodraeth Cymru. Yn amlwg mae angen cysondeb yn y dull o ddatblygu a gosod polisïau yn genedlaethol. Gyda chysondeb hefyd ceir tegwch, a dyma'r rheswm dros i'r Cyngor hwn wrthod yr honiad o fewn y Papur Gwyrdd mai dim ond fel 'gwobr' am uno y byddai'n rhoi pwerau, rhyddid a hyblygrwydd i'r Cynghorau hynny, p'un a yw'r manteision o wneud hynny yn gorbwyso'r costau ai peidio.<br><br>Gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu cysondeb yn ei dull o gynnig cefnogaeth; fodd bynnag, dylai natur y gefnogaeth hon fod yn wahanol i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. **Y dull y byddai'r Cyngor hwn yn dymuno ei weld fyddai un cytbwys.** Gallai hyn fod ar ffurf cyllid ac arbenigedd technegol/arbenigol arall i ychwanegu projectau capasiti i newid sy'n darparu cyfle i brofi er mwyn gallu eu hailadrodd mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol (a arweiniodd at ddatblygiad y Gwasanaeth Rheoleiddio Rhanbarthol) yn enghraifft dda o hyn yn gweithio'n ymarferol. Yn y modd hwn, byddai'r rhai sy'n dymuno uno yn cael eu trin yn gyson, fel y byddai'r rhai sydd eisiau bod yn annibynnol.<br><br>O ran gwasanaethau a rennir, mae'n hollbwysig, ar y cychwyn, fod cytundeb ynghylch pa wasanaethau y dylid eu cyflenwi mewn modd cyson. Rôl democratiaeth leol yw sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i ddiwallu angen lleol a dylai hyn fod yn sail i unrhyw gynigion ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Byddai'r cyngor hwn yn croesawu'r cyfle i gael deialog agored ac adeiladol gydag awdurdodau eraill, sefydliadau a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion heb i'r mater hwn gael ei gymysgu gydag ad-drefnu eang. |

| |
|---|
| Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, mae llawer o enghreifftiau o drefniadau gwasanaeth a rennir sy'n parhau i ddiwallu angen lleol tra'n gweithio ar ôl troed mwy. Mae angen i'r profiad a'r wybodaeth a enillwyd o'r rhain gael eu dwyn ynghyd a'u rhannu. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn aelod o nifer o wahanol drefniadau perfformio uchel a byddai'n hapus i rannu'r profiad a'r dysgu hwn. Gallai hwyluso'r dysgu hwn gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a/neu CLlLC. |
| b) Oes unrhyw heriau neu gyfleoedd eraill yn deillio o newid strwythurol neu ddarparu pwerau a hyblygrwydd eraill nad ydynt wedi eu nodi uchod? Os oes angen cymorth ar y meysydd hyn, ym mha ffordd y dylid rhoi'r cymorth hwnnw? |
| **Un o'r cynigion mwyaf niweidiol o fewn y Papur Gwyrdd yw'r cynnig o bwerau a hyblygrwydd ychwanegol dim ond i'r Cynghorau hynny sy'n derbyn cynnig Llywodraeth Cymru i uno. Nodir drwy'r ymateb hwn yr angen i ddarparu hyblygrwydd yn y maes yma er mwyn galluogi'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau i barhau gyda'r gwaith da sy'n cael ei wneud, a pheidio â chael eu drysu gan ymyriad hir a chostus. Go brin bod rhoi pwerau ychwanegol i rai cynghorau ac ddim i rai eraill yn gyson.**<br><br>Rydym wedi nodi uchod y byddai cyllid ychwanegol i gefnogi projectau sy'n ategu'r awydd i wella gwydnwch a chynhyrchu arbedion ariannol yn helpu i hyrwyddo ymhellach y gwaith rhanbarthol a lleol cadarnhaol sydd yn digwydd nawr. Cefnogir datblygu dulliau cenedlaethol (ac mewn rhai achosion, breichiau darparu gwasanaethau) mewn egwyddor, ac mae cymorth a chyllid Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn symud y rhain ymlaen. |
| c) Pa un o'r materion a nodwyd uchod neu yn eich ymateb ddylai gael blaenoriaeth i'w ddatrys yn gynnar? |
| **Y mater blaenoriaeth i'r Cyngor hwn ei ddatrys yn fuan fyddai i'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi bod yr ymgynghoriad hwn wedi arwain at wneud y penderfyniad cywir - hynny yw, y dylid cefnogi Llywodraeth Leol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn strwythur sy'n gwneud synnwyr yn lleol, ac nid yn ôl dictad cenedlaethol.** |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 11.</u><br>Hoffem wybod eich barn am ba effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| a) Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? |
| **Fel y disgrifiwyd drwy ein cyflwyniad, mae'r Cyngor hwn o'r farn mai'r mwyaf yn y byd yw'r sefydliad, y mwyaf digyswllt mae'n debygol o fod o'r cymunedau yr ydym yma i'w gwasanaethu. Yn y modd hwn, ni fyddai'r iaith Gymraeg yn wahanol, a byddai'r sefydliad yn fwy digyswllt o'r gymuned hon (a phob un arall).** |

b) Sut y byddai modd cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?

**Mae ad-drefnu llywodraeth leol yn debygol o dynnu sylw oddi ar ganolbwyntio ar anghenion cymunedau, ac o'r herwydd, gellid lliniaru effeithiau negyddol trwy ddefnyddio dull mwy hyblyg fel y disgrifir drwy'r ymateb hwn.**

Cwestiwn Ymgynghori 12

Eglurwch hefyd sut y credwch y byddai modd ffurfio neu newid (os bydd angen) y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Gweler uchod.

Cwestiwn Ymgynghori 13

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ochr yn ochr â’r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion sydd wedi’u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

**Fel y disgrifiwyd drwy ein cyflwyniad, mae'r Cyngor hwn o'r farn mai'r mwyaf yn y byd yw'r sefydliad, y mwyaf digyswllt mae'n debygol o fod o'r cymunedau yr ydym yma i'w gwasanaethu. Felly byddai’n cael effaith ar blant a phobl ifanc oherwydd mwy o ddatgysylltiad rhwng y grŵp hwn a'r sefydliad. Gyda llai o aelodau etholedig i'w cynrychioli a sefydliad mwy, mae plant a phobl ifanc yn debygol o ymgysylltu llai.**

Mae'r CRIA yn canolbwyntio ar adlewyrchiad positif o'r hyn a allai ddigwydd gydag ad-drefnu awdurdodau lleol. Erthygl 12 - Pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i ddweud beth maent yn feddwl a ddylai ddigwydd, a dylid ystyried eu barn.

Byddai positifau gwirioneddol yn gweld dychwelyd at Strategaethau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc (nid rhan o strategaeth gyfranogiad ehangach); croesewid hyn, ond byddai hefyd yn ei wneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adennill perchnogaeth o'r agenda hon i helpu ei symud ymlaen. Golyga hyn gryfhau’r staff o fewn LlC sydd â gwybodaeth weithredol, a allai helpu i ailadeiladu'r maes gwaith hwn.

Mae'r cysyniad o gefnogi cryfhau llais i bobl ifanc ymhlith corff aelodau etholedig yn swnio'n wirioneddol bositif ond byddai'n cael ei ddylanwadu gan fanylion a beth mae hyn mewn gwirionedd yn ei olygu a sut y gellid ei weithredu.

Fodd bynnag, nid yw'r Papur Gwyrdd yn nodi'r effaith ddofn y mae gostyngiadau yn y gyllideb wedi'i chael ar wasanaethau i blant a phobl ifanc, ac ni fu llawer o gefnogaeth genedlaethol y tu hwnt i'r Comisiynydd Plant i helpu gyrru'r agenda cyfranogiad pobl ifanc ymlaen. Mae hon yn ystyriaeth hirdymor hanfodol ar gyfer y sector cyhoeddus ac mae'n mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o feddwl yn y tymor hwy, gan weithio ar y cyd a chynnwys y cymunedau yr ydym yma i'w gwasanaethu. Yn anochel, byddai datblygu gwasanaethau mwy a phellach yn digwydd yn sgil yr ad-drefnu a gynigir yn y Papur Gwyrdd. Byddai hyn yn lleihau gallu plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chyfranogi mewn gwneud penderfyniadau. Ar lefel leol, mae Bro Morgannwg wedi cefnogi a chynnal Cyngor Ieuenctid gweithgar, Fforwm Ieuenctid a gwahanol grwpiau a chynghorau llais ieuenctid/ disgyblion. Nid oes fawr o fewn y ddogfen sy'n caniatáu cyfle i'r holl grwpiau hyn o bobl ifanc gael eu diweddaru ar y cynlluniau hyn, a chynnal ymgynghoriad â nhw mewn ffordd sy'n caniatáu i fandad ieuenctid fwy gwybodus fynd ymlaen. Byddai'n wendid defnyddio'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rai blynyddoedd yn ôl.

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

**Plant a phobl ifanc heddiw yw'r rhai a fydd yn gorfod wynebu effaith y penderfyniadau a gaiff eu trafod a'u cytuno. Os, fel y tynnwyd sylw ato, y dylai llywodraeth leol gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yna dylai fod gofyn i blant a phobl ifanc drafod/dadlau goblygiadau'r newidiadau hyn a'u cymryd o ddifrif.** Byddai'n gyfle coll i beidio â chael barn gywir a theg gan blant a phobl ifanc; mae arnynt angen gwybodaeth sy'n adlewyrchu'r agweddau positif a negyddol i ganiatáu iddynt gyfle i ffurfio barn ynglŷn â'r hyn sy'n set gymhleth o effeithiau/arbedion damcaniaethol a all ddeillio o unrhyw uno.

Cwestiwn Ymgynghori 14

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn rhoi braslun o farn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

**Fel y disgrifiwyd drwy ein cyflwyniad, mae'r Cyngor hwn o'r farn mai'r mwyaf yn y byd yw'r sefydliad, y mwyaf digyswllt mae'n debygol o fod o'r cymunedau yr ydym yma i'w gwasanaethu. Yn y modd hwn, ni fyddai grwpiau gwarchodedig yn wahanol.**

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

**Mae ad-drefnu llywodraeth leol yn debygol o dynnu sylw oddi ar ganolbwyntio ar anghenion cymunedau, ac o'r herwydd, gellid lliniaru effeithiau negyddol trwy ddefnyddio dull mwy hyblyg fel y disgrifir drwy'r ymateb hwn.**

Cwestiwn Ymgynghori 15
Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn.

**Mae'r Papur Gwyrdd yn siom sylweddol gan mai dim ond 'ailwampiad' ydyw o waith blaenorol a wnaed gan Gomisiwn Williams, serch nad oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol a chyfredol.**

**Mynega'r Rhagair y farn bod llywodraeth leol yn fwy na strwythurau, ond eto mae elfen sylweddol o'r hyn sy'n dilyn yn canolbwyntio ar strwythurau, heb gynnig unrhyw opsiynau na dewis ynghylch pa ffurf ddylai ddilyn.**

**Yn yr un modd, ni chefnogir y cynigion gan unrhyw dystiolaeth galed. Gwneir yn fawr o hyblygrwydd a phwerau ychwanegol, ond nid oes unrhyw fanylion na chynnwys ar y mater hwn.**

**Yn yr un modd, nid yw'r cynigion yn ystyried materion record dda, perfformiad, gallu a rheolaeth y 22 Cyngor presennol. Nid yw hyn yn cyfrif am ddim ac mae'r cynigion yn syml yn ceisio gosod strwythur llywodraeth leol newydd heb unrhyw ystyriaeth o hanes y Cynghorau presennol. O ganlyniad, mae'r cynigion yn ddi-sail a chyfyngedig.**

**Mae cydweithio a phartneriaeth yn allweddol wrth symud ymlaen nifer o'r materion a godwyd yn y Papur Gwyrdd, ac mae llywodraeth leol wedi cyflymu'n arw yn hyn o beth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Papur Gwyrdd yn anwybyddu'r pwynt hwn.**

**Dangosodd tystiolaeth bod Cyngor Bro Morgannwg yn chwarae rhan weithgar mewn cydweithio a hefyd bu ar flaen y gad o ran dylunio, darparu a chynnal gwasanaethau a rennir ar draws nifer o ffiniau. Rydym hefyd wedi cyfeirio at ein rhaglen drawsnewid, Ail-lunio Gwasanaethau, sy'n rhoi cipolwg ar y ffordd arloesol yr ydym yn gweithio i ailgynllunio gwasanaethau lleol a sicrhau eu cynaliadwyedd a'u hirhoedledd ar adeg gostyngiad mewn cyllidebau. Mae mentrau o'r fath yn bosibl gan ein bod wedi buddsoddi amser mewn ymgysylltu â'n staff a'n cymunedau, rhywbeth a fyddai'n cael ei roi mewn perygl sylweddol o ganlyniad i'r cynigion diweddaraf.**

**Mae'n werth nodi hefyd y bu hyn i gyd yn bosibl flwyddyn ar ôl blwyddyn, er gwaethaf setliad anfanteisiol iawn gan Lywodraeth Cymru, un sy'n parhau i fod yn seiliedig ar fethodolegau hen ffasiwn. Efallai y byddai'n well treulio amser yn myfyrio ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu llywodraeth leol, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a thegwch i bawb.**

**Byddai'r ymyrraeth, y gost a'r cynnwrf sy'n gysylltiedig ag ailstrwythuro llywodraeth leol yn oedi cynnydd mewn gwella gwasanaethau a bodloni'r heriau y mae'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Byddai cynghorau sy'n wynebu adolygiad strwythurol o'r fath yn colli ffocws ar arloesi a chyflenwi gwasanaethau, ac yn canolbwyntio ar y materion sy'n ymwneud â newid sefydliadol. Y rhai a fyddai'n talu'r pris fyddai'r dinasyddion a'r cymunedau**

**yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu, er gwaethaf wynebu diffyg ystyriaeth o farn, perfformiad ac atebolrwydd uniongyrchol o’r gwasanaethau a ddarparwn.**

**Yn olaf, cytunwyd ar yr ymateb hwn gan Gabinet y Cyngor ac mae wedi'i lunio yn dilyn briffio llawn o’r aelodau. Hefyd craffwyd arno gan Bwyllgor Adnoddau Perfformiad Corfforaethol y Cyngor. Mae cynnwys yr ymateb yn adlewyrchu'r broses hon.**